

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 334 - 60c
Mehefin 2015

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Haul yn
gwenu yn y
Carnifal



Tudalen 2

Gŵyl Haf
Merched
y Wawr



Tudalen 14


Rhys y
rhedwr
chwim




Tudalen 24

John O'Groats i Lanybydder

Rhwng 24 – 30 Mai bu Llyr Davies, Maesybarcud, Llanybydder a chriw o 14 o seiclwr eraill o ardal Llanybydder a'r cylch yn seiclo o John O'Groats a gorfennwyd yng Nghlwb Rygbi Llanybydder er mwyn codi arian i Cancr Cymru a Parkinsons. Bydd rhagor o luniau yn y rhifyn nesaf.



Llwyddiant Cenedlaethol



Aelwyd Llambled yn ennill y Grŵp Llefaru Bl. 7 - 9 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd dan hyfforddiant Elin Williams.

Charlotte Saunders o Gwrtnewydd yn ennill cystadleuaeth dawnsio unigol i ddisgyblion Bl 7 8 a 9 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili.



Carnifal Cwmann



Gosgordd y Carnifal



Buddugwyr y Carnifal

Carnifal a Mabolgampau

Ar brynhawn godidog ar Fai 23ain, cynhaliwyd Carnifal a mabolgampau Cwmann ar gae'r pentref. Roedd y cae yn edrych yn lliwgar ac yn llawn bwrlwm gyda'r frigad dân, yr heddlu, Mike Morgan o St John's, castell bownsio a gweithgareddau eraill amrywiol yn diddanu pawb heb sôn am y gwisgoedd ffansi a phawb yn hamddenol yn mwynhau'r prynhawn yn yr heulwen braf. Llywydd ein dydd eleni oedd Rhiannon Lewis, Tanlan, a chawsom araith ddifyr ganddi yn sôn am ei hatgofion o'r carnifal a diolch yn fawr iddi am ei rhodd hael i goffrau'r pentref.

Teithiodd y frenhines a'i gosgordd drwy'r pentref ar lori W.D.Lewis a oedd wedi cael ei haddurno'n hardd iawn gan y rhieni a diolch iddynt am eu gwaith caled. Ein brenhines am eleni oedd Beci Harrison, y morwynion oedd Mali Fflur Jones ac Elen Medi Jones, y gweision bach oedd Cassidy Edwards a Trystan Evans a brenhines y rhosod oedd Jazmine Carroll. Roedd pob un ohonynt yn edrych yn hardd iawn ac wedi gwneud ei gwaith â graen, a chawsom araith bwrpasol iawn gan Beci.

Roedd y gwaith anodd o feirniadu'r carnifal eleni yn cwmpo ar ysgwyddau Lois Williams a Bethan Williams, ac er nad oedd niferoedd y cystadleuwyr yn uchel iawn o'i gymhau â'r gorffennol, roedd y safon a'r ymdrech yn parhau'n uchel.

Mae'n diolchiadau yn niferus; i'r holl bobl a gynorthwyodd ar y dydd er mwyn sicrhau trefn a llwyddiant; i'r bobl hynny a weithiodd yn ddiwyd o flaen llaw i wneud y diwrnod yn bosibl; i'r Frigad dân, yr heddlu a Mike Morgan am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r dydd; i'r W.I am baratoi'r bwyd; i'n llywydd, beirniaid a'r frenhines a'i gosgordd; W.D.Lewis am fenthg y lori; Robert's Garden Centre am roi benthyg y coed ar gyfer lori'r frenhines; i Emyr Jacob am fenthg y BBQ; i Gethin Briwsion, Simon Hall Meats a Teify Forge am eu cydweithio cyson ac wrth gwrs i noddwyr y dydd Douglas Bros am eu rhodd hael.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@ClybiauGwawr
Mai 16

Cyflwyniad ar waith T
Llew Jones gan gangen
#LlanbedrPontSeffan
#GwylHaf #MYW

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@JillTomas
Mai 15

Noson Goffi Pwyllgor
Henoed Llanybydder
yn festri Aberduar.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@RhiannonTanlan
Mai 9

Adran @Urdd Llanbed
wedi joio canu gyda
@dafyddiwan
@nosonlawn

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@CorCwmann
Mai 8

Rhai aelodau'r cor yn
barod i fynd i gyngerdd
1,000 o leisiau yn
Neuadd Albert.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@LampeterTownRFC
Mai 6

Llanbed yn ennill yn
erbyn Llandybie gyda
sgor o 80-0! Da iawn
bois.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@YsgolBroPedr
Mai 5

Siaradwyr yn barod
am ddadl.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Mehefina Gorffennaf Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001

Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922

Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies

Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507

Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238

Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856

Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407

Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325

Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218

Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239

Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu eostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Digon o ganu!

All neb ddweud nad yw ardal Clonc yn un diwylliedig! Fis diwethaf, ar un penwythnos yn unig, roedd Tri Tenor Cymru yn cynnal cyngerdd yn Theatr Felinfach ddwy noson o'r bron, ac roedd Cwmni Da yn recordio Noson Lawen yng Nghanolfan Hamdden Llambled ar gyfer S4C bedair noson o'r bron. A chyn pen diwedd y mis, roedd Noson Lawen fawreddog ar gampws y coleg, i ddatlu pen-blwydd Undeb Amaethwyr Cymru yn drigain oed. Os ydych chi'n joio canu ac adloniant noson-lawenaidd, greda i eich bod chi'n teimlo fel bod pob Nadolig a phen-blwydd a'r seithfed nef i gyd yn un fis Mai eleni!

Ac mae'r cyfnod rhwng y Pasg a'r Sulgwyn hefyd, yn draddodiadol, yn dymor y cymanfaoedd canu. Os ydych chi'n licio canu emynau, doedd dim prinder dewis a chyfle am gymanfa yn yr ardal hon. Ond er hynny, faint o bobol oedd yn eich cymanfa chi? Oedd, efallai bod ambell gymanfa yn dda, yn enwedig o ystyried faint o gynulleidfa sy'n addoli yn y capel neu'r eglwys o Sul i Sul, ond dychmygwch faint allai fod yn y gymanfa petai'r holl aelodau a'u cyfeillion – heb sôn am y gymuned Gymraeg ei hiaith – i gyd yn tynnu at ei gilydd?

Roedd Llambled a'r ardal wedi cael tipyn o sylw llynedd ar donfeddi radio a theledu. Recordiwyd Caniadaeth y Cysegr ddwywaith (un yn Shiloh ar gyfer dathlu Sioe Llambled a'r llall yn Soar i ddatlu pen-blwydd Côr Meibion Cwmann), a Dechrau Canu Dechrau Canmol (tair rhaglen wedi'u darlledu, a'r canu'n dod o gapel Shiloh). Ond pan edrychwch chi'n fanwl ar y gynulleidfa, fe sylwch chi taw denu'r corau mae'r cwmnïau recordio wedi gwneud – a'u denu nhw i gael canu 'da' a sicrwydd o gynulleidfa, am wn i.

Mae Dylan Lewis, Cadeirydd Clonc, wedi sgrifennu erthygl sy'n procio'r meddwl ar wefan Clonc360 – 'Beth yw dyfodol y gymanfa ganu?' Darllenwch yr erthygl, a holwch i chi'ch hunain beth yw ystyr a phwrpas y gymanfa, ac a oes diben ei hachub a/neu ei haddasu.

Pob hwyl i gyngherddau, nosweithiau llawen a chymanfaoedd canu'r misoedd nesaf. A chofiwch, daw tymor yr eisteddfodau mawr cyn troi rownd – y Genedlaethol ym Meifod a'r eisteddfod flynyddol yn Llambled!

Cloncen

Cynghrair Ward Llanwenog

Yn ystod misoedd y gaeaf a'r gwanwyn sydd wedi mynd heibio trefnodd y Gynghrair gyfres o sgysiau gan aelodau o'r gymuned neu gan bobl oedd â chysylltiad agos gan Ward Llanwenog. Cynhaliwyd y nosweithiau yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen a thafarn Cefnhafod, Gorsgoch. Cafwyd amrywiaeth diddorol o destunau – Beirdd y Bobl gan Dylan Iorwerth; Atgofion ei blentyndod yng Ngorsgoch gan James Lloyd; Hanes Stryd Fawr Llambled a'i phobl gan Yvonne Davies; Hanes pentref Gorsgoch gan Mair Jones; Ei fywyd a'i waith gan Ken Lewis a Hanes pentref Cwmsychpant gan Megan Jones. Dysgwyd llawer am hanes y cymunedau bywiog yma a dehonglwyd y testunau yn ddifur tu hwnt gan y cyfranwyr.


Ar ddydd Sul Mehefin 28ain i ddechrau am 10 o'r gloch mae'r Gynghrair wedi trefnu taith gerdded 'Adnabod eich ardal' yn Rhuddlan a Brynteg. Bydd y daith yn dechrau yn mynedfa wreiddiol Ysgol y Dolau sef 'lodge' Wempa gan gerdded i flaen yr ysgol ac yna dilyn yr afon Teifi i Lantern Lodge lle ceir ychydig o hanes Rhuddlan. Ymlaen i Grug y Whil i gerdded bryncin lle bu archaeolegwyr yn edrych am dystiolaeth o fangre Llys Pryderi o'r Mabinogi cyn cerdded i fyny i Frynteg i weld yr hen chwarel gerrig a gorffen gyda lluniaeth yng ngarej Y Gweithdy. Croeso cynnes i bawb.

Prosiect blwyddyn nesaf y Gynghrair yw edrych mewn i'r posibilrwydd o greu byrddau dehongli hanes rhai o bentrefi Ward Llanwenog, byrddau tebyg i'r rhai sydd eisioes yng Nghapel Alltyblaca a Chapel y Groes. Os oes unrhyw un eisioes cyfrannu rhyw hanes i'r byrddau dehongli, yna bydd cyfle i chi wneud hynny trwy leisio eich barn yn sioeau Cwmsychpant a Gorsgoch yn ystod mis Awst pan fydd stondin yno gan y gynghrair.

Cyngor Cymuned Pencarreg

Hoffai aelodau'r cyngor hysbysu'r gymuned bod diffibriliwr wedi ei leoli tu fas Canolfan y Gymuned yng Nghwmann i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

Rhoddyd pedwar hysbysfwrdd newydd yn yr ardal, un ger Sgwâr Cwmann, un yng Nghysgodfan Bws Heol Hathren, un wrth fynedfa Cae'r Pentref ac un ym Mharcyrhos.



TEIARS
HUW LEWIS
TYRES

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion.
SA40 9XG

Darparu gathau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Mwnici ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod
☎01570 423135
☎07811917799 /
07968821035
✉mwnciffwnci@hotmail.com

**Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services**

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

MEHEFIN

- Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau.
- Rali C.Ff.I. Ceredigion ar fferm Prysg, Llanddewi Brefi.
- Gymanfa'r Rali yng Nghapel Bethesda, Llanddewi Brefi.
- Amgueddfa Llambod: diwrnod o briso'ch trysorau am ddim gan Peter Francis, Caerfyrddin 11yb – 3 yp.
- Ymchwil Cancr Llanybydder a'r Ardal - Barbeciw yn Cwm Aur, Llanybydder.
- Ffair Haf Ysgol Llanwenog am 4.00y.p.
- Cyngerdd yng Nghapel Maesffynnon, Llangybi gan Gôr Clychau'r Fedwen am 7.30y.h. Elw tuag at y capel. Mynediad £5.
- Rasys Sarn Helen yn Ysgol Felinfach.
- Carnifal Llanybydder ar y Caeau Rygbi am 1.00y.p.
- Twmpath Dawns Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion, ar y cyd gyda Clwb Cledlyn, yn Dolwen, Llanwenog am 7.30y.h.
- Taith gerdded o Rhuddlan i Frynteg wedi'i threfnu gan Gynghrair Cymuned Ward Llanwenog i ddechrau am 10.00 yn Wempa. Croeso i bawb.
- Pwyllgor Cymanfa Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan yn Noddfa am 7.30y.h.

GORFFENNAF

- Noson i Lansio Llyfr Picton Jones, Drefach 'Plu yn fy nghap' am 7.00y.h. yn Festri Brondeifi, Llambod. Croeso cynnes i bawb.
- Corisma, Cacen a Chên - Grêt Welsh Bêc Off! Cae Canolfan Gymunedol Cwm-ann am 2.00yp.
- Diwrnod Hwyl ar gae Chwarae Llanllwni
- Mabolgampau Blynnyddol Pentref Cwrtnewydd.
- Helfa Drysor ar gae Chwarae Llanllwni.
- Ras Hwyaidd Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion, Glanwern, Felin-fach am 1.00y.p.
- Cneifio Llambod ar fferm Capeli i ddechrau am 8.30y.b.
- Ffair Fwyd Llambod ar dir Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Llambod.
- Ras Hwyaidd yn Llanfair.

AWST

- Carnifal Llanbed. Thema: Cartŵns.
- Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- Sioe Amaethyddol Llanbed.
- Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog ar gaeau Glwydwern gydag Eisteddfod Ddwl yn dechrau am 8.00y.h. ym mhabel y sioe.
- 29 a 31 Eisteddfod Rhys Thomas James Llanbed.
- 31 Sioe Pentref Llanfair.

MEDI

- Dathlu 175 Capel Bethel Parcyrrhos.
- Noson yn Nghwmni Clive Edwards yn Tafarn y Talardd am 8yh. Mynediad drwy tocyn yn unig. Tocynnau ar werth: Annwen Evans 07971 816842 neu Carys Jones 01559 395 382.
- Ffair Ram ar gaeau pentref Cwmann.
- Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Felinfach am 7.00y.h.
- Meistri'r Dartiau yng nghwmni Gary Anderson, Tony O'Shea, Michael Smith a Darryl Fitton yn Neuadd Fictoria, Llanbed. Tocynnau ar werth nawr trwy law Bedwyr Davies ar 07580 128039 neu 01570 423683.
- Noson yng nghwmni "Bois ar Wasgar" ac aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni yn y Llew Du Llanybydder.. Elw tuag at gangen Llanybydder o Gymdeithas Diabetes Cymru.

HYDREF

- 9, 16 a 17 Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gaerfyrddin yn Neuadd San Pedr.
- 14 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos am 7.00y.h. gyda Gwyn Elfyn.
- 16 Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.
- 23 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion yn cynnal Cinio Cig Eidion yn Llanina, Llanarth.
- 29 a 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.
- 31 Eisteddfod Gadeiriol, Pumsaint. Manylion pellach wrth Mair Williams ar 01558 650292

Clwb Clonc

Mehefin 2015

£25 rhif 427 :
James Rhodes,
4 Bryndulais, Llanllwni.

£20 rhif 318 :
Caradog Jones,
1 Maesfelin, Llambod.

£15 rhif 109 :
Lowri Aur Davies,
Hafod Lon, Cae Ram,
Cwmann.

£10 rhif 197 :
Dannie Harries,
Gelli, Cwrtnewydd.

£10 rhif 70 :
Geraint Davies,
Hengoed, Heol Llyswn,
Aberaeron.

£10 rhif 175 :
Soffia Evenden,
Gwalia, Cae Sarn,
Cwrtnewydd.

£5 rhif 51 :
Eurwyn Davies,
47 Heol-y-Gaer,
Llanybydder.

Alltyblaca

Gwellhad Buan
Gobeithio fod Mrs Phyllis Davies,
Bro Teifi yn well yn dilyn ei llaw
driniaeth yn ddiweddar. Cofion
cynhesaf atoch.

Llongyfarchiadau
Pob dymuniad da i Angharad a
Rhys ar enedigaeth merch fach,
Betsan Fflur a chroeso hefyd i'w
cartref newydd yn Hafan Glyd, Bro
Teifi.

Cellan

Llwyddiant
Yn ystod Eisteddfod Yr Urdd,
Caerffili a'r Cylch 2015 bu i
Siwan Jones o Ysgol y Dderwen,
Caerfyrddin ac wyres i Mary a Ken
Jones, Glasfryn ennill ar yr Unawd
Bl 3 a 4. Yn sgil ei llwyddiant bydd
Siwan a'r teulu yn mynd allan ar ran
yr Urdd i Disneyland, Paris yn ystod
dathliadau Gŵyl Dewi ym Mawrth
2016. Pob hwyl i chi allan yno.

Pentrebach

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Eric Jones,
Pant-teg, Pentrebach a'r teulu ar
farwolaeth ei frawd sef Mr Tom
Jones, Cannington, Bridgewater
(gynt o Gwarcwm, Pentrebach).

Cefn Hafo Gorsgoch



01570 434238

**Cyri bob nos Wener
£6 y pen**

Croeso cynnes i bawb!

**W.D.
Lewis**
a'l Fab

*Mazdaethwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants*

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

**'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'**

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

Alec Page Gof



**Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.**

Dewch i drafod eich syniadau.

**Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.**

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

**WILLIAMS
& BOURNE**
CYFREITHWYR.
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Cwmann

CFFI Cwmann

Wel, mae wedi bod yn ddau fis prysur ers i chi glywed wrthym ni ddiwethaf. Yn gyntaf, hoffwn fel clwb ddiolch i bawb a wnaeth roi at ein noson moch a gynhaliwyd yn y clwb rygbi ym mis Ebrill. Roedd yn noson llawn sbri efo pawb wedi mwynhau a thynnu arian allan o'u poced i'r elusen. Ar ddiwedd y noswaith fe wnaeth y clwb godi £2931.60c sydd yn cael ei rannu rhwng y clwb a'r Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor.

Ar ôl i'r digwyddiadau orffen roedd hi'n amser canolbwyntio ar y rali a oedd yn cael ei gynnal ar gae'r sioe, Nantyci, Caerfyrddin. Fe wnaeth yr aelodau roi eu llaw at sawl sgil wahanol yn cynnwys gosod blodau a phapuro wal. Er bod y clwb yn un bach fe wnaethom yn hynod o dda, wrth gipio rhai gwobrau.



Cafodd Lois Price gyntaf yn gosod blodau o dan 18 ar y thema teulu.



Manon Williams yn dod i'r brig am baentio cynfas i wneud efo teulu ffermio o dan 16.



Rhian Thomas a Carys Thomas a ddaeth yn ail yn y 'Generation Game' a'u tasg oedd addurno dau bot iogwrt.



Nia Haf Thomas a Lois Price yn cipio'r drydedd wobr yn y coginio. Roedd Hari Butten ac Iwan Williams yn dynn wrth eu sodlau ac yn cipio'r pedwerydd safle.

Hoffai'r clwb ddiolch i'r holl bobol a fu'n helpu efo paratoi ar gyfer y rali.

Yn dilyn ei llwyddiant bu Manon yn cystadlu yng Ngŵyl y Gwanwyn ble ddaeth yn drydydd yn peintio'r canfas. Da iawn ti Manon.

Ysbyty

Da deall fod Kay Douglas ac Arthur Jenkins, Heol Hathren adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, gan obeithio eich bod yn parhau i wella.

Efeilliaid

Llongyfarchiadau mawr i Bethan ac Owain Jones, Tryweryn ar ddyfodiad efeilliaid ar Fai 9fed sef Osian Andrew a Sara Bere ac ŵyr ac wyres gyntaf i Andrew a Pat, Glanhathren. Pob dymuniad da i chwi fel teulu.

Cartref Newydd

Croeso cynnes i Ann Douch a Rhodri sydd newydd symud i fyw i Trefin. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Cydymdeimlo

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth Miss Gwenda Thomas, Tegfan yn Ysbyty Glangwili. Bu yn athrawes yn Ysgol Coedmor am gyfnod maith o flynyddoedd ac wedi dysgu cenedlaethau o blant. Roedd yn uchel iawn ei pharch gan y plant, athrawon a'r rhieni a bu'n gefnogol i holl weithgareddau'r ysgol a'r pentref ar ôl iddi ymddeol.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r perthnasau estynedig.

Cydymdeimlir yn ddwys hefyd ag Elen Powell, Felindre Uchaf ar farwolaeth ei thaid sef y Cyn Farnwr Dewi Watkin Powell o Griccieth.

Priodas Arian

Yn ystod diwedd mis Mai dathlodd Aled a Helen Roberts, Caeronnen eu Priodas Arian. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Neuadd Sant Iago

Clwb 125 – Mis Mai

1. Emyr Jones, Teifi Forge, Cwmann, 40. 2. Christina a Shaun, Pleasant View, Llambled, 8. 3. Ilse Shaw, Bryngwyn, Gorsgoch, 34. 4. Pat Jones, Glanhathren, Cwmann, 106. 5. Rhys Jones, Tanybryn, Cwmann, 87. 6. Phillip Lodwick, Penryn, Cwmann, 138. 7. Ann Lewis, Hill Side, Cwmann, 86.

Clwb 225 – Mis Ebrill

1. Ioan Williams, Dolgwm Isaf, Pencarreg, 108. 2. Mair Williams, 1 Railway Terrace, Cwmann, 216. 3. N & E Davies, Pleasant View, Llambled, 128. 4. Jeff Evans, Llyscoed, Cwmann 63. 5. Angharad a Gareth, Garej Pontfaen, Llambled, 205. 6. Eric Harries, Aberystwyth, 70. 7. Stanley Evans, Coedywaun, Parcyrhos, 123. 8. Gwynfil Griffiths, Brynhathren, Cwmann, 185. 9. Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 207. 10. M. Randell, Blaencwm, Cwmann, 157.


Cylch Meithrin Coedmor

Codwyd £65-97 i'r Cylch Meithrin ddiwrnod Carnifal Cwmann, a gwnaed elw o £102-20 ar Stondin Gacenau yn ddiweddar. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.


Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai ar nos Fawrth 5ed yn Nhafarn y 'Vale of Aeron' Felinfach gyda Noelen Davies, y Llywydd, yn y gadair. Diolchodd i Gwyneth am drefnu gwraig wadd ar fyr rybudd gan fod y trefniadau gwreiddiol wedi eu dileu. Cyflwynodd Noelen, y wraig wadd, Melinda Davies sydd yn wreiddiol o Gwmann ond nawr yn byw yn Felinfach ac yn gweithio yn y Theatr yno ers 30 mlynedd. Mae'n diddori mewn crefftau ac un ohonynt yw gwneud cardiau. Yr oedd wedi dod ag amryw i ddangos i'r aelodau. Dangosodd sut oedd hi'n gwneud y cardiau trwy ddefnyddio cyfrifiadur a sut i roi addurniadau gwahanol arnynt. Yr oedd ei gwaith yn edrych yn broffesiynol iawn. Diolchodd Gwynfil iddi am noson hyfryd a diddorol ac hefyd am ddod ar fyr rybudd. Ar ôl pryd o fwyd blasus aethpwyd ymlaen a'r cyfarfod busnes. Bodlonodd Gwyneth Morgan wneud gwaith ysgrifennydd Grŵp Teifi. Trefnwyd paratoi bwyd i'r Carnifal ar 23ain o Fai.

Penderfynwyd dathlu canmlwyddiant y Sefydliad yng nghinio blynyddol y Gangen yn mis Hydref a chael cacen bwrpasol.



Ifan Meredith, Ysgol Bro Pedr yn derbyn y drydedd wobwr am waith gwehyddu i ddisgyblion blynyddoedd 3 a 4 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.



Austin Thomas, Ysgol Bro Pedr yn cipio'r ail wobwr am ryddiaith Cymraeg fel ail-iaith i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili.



Filip Poczek enillodd Bencampwriaeth Gymnasteg Prydain a gynhaliwyd yn Stoke on Trent yn ddiweddar. Hyfforddwyd Filip gan Mr Islwyn Rees.



Bu Tia Deacon Jones o fl. 4 a Dion Deacon Jones o fl 1 yn gwneud triathlon yn ddiweddar a chodi swm sylweddol o arian sef £921.11 tuag at Rheumatoid Arthritis – arbennig.

Ysgol Bro Pedr – campws iau

Llongyfarchiadau mawr i ddau ddisgybl o'r ysgol ar dderbyn gwobrwyon yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Cafodd Austin Thomas blwyddyn 5 yr ail wobwr am ysgrifennu rhyddiaith Cymraeg fel ail-iaith i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 ac Ifan Meredith blwyddyn 4 yn derbyn yr ail wobwr am waith gwehyddu i ddisgyblion blynyddoedd 3 a 4 – da iawn chi'ch dau.

Yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Sirol yr Urdd daeth Faye Jones yn ail, Jessica McKay yn chweched, Evie McKay yn nawfed ac Annabel Hunt yn wythfed – da iawn chi.

Yng nghystadleuaeth arlunio'r Rotari derbyniodd Alecia, Karolina a Kodi wobrau am eu lluniau o adar – da iawn chi ferched. Mae eu lluniau wedi cael eu harddangos yn y dref.

Daeth llwyddiant ysgubol i Faye Jones, Jessica McKay ac Evie McKay yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd – gwnaeth y dair ennill y fedal aur fel tîm merched blwyddyn 4 – tipyn o gamp. Gwnaeth Annabel Hunt a Sean Wood yn arbennig o dda hefyd yn y gystadleuaeth a diolch i Mrs Roberts am fod yno ar ran yr ysgol.

Llongyfarchiadau i Mrs Nerys Evans a'i gŵr Alan ar enedigaeth merch fach sef Keira May – dymunwn yn dda iddynt fel teulu.

Mae Filip Poczek o flwyddyn 6 wedi gwneud camp aruthrol. Fe enillodd mewn cystadleuaeth yn Stoke yn ddiweddar ac ef yw Pencampwr Gymnasteg Prydain. Llongyfarchiadau mawr iddo ac i'w hyfforddwr Mr Rees.

Fe wnaeth yr ysgol yn wych yn cyrraedd yr ail safle ym mhencampwriaethau athletau Dyfed a diolch i Mr Roderick, Mr Davies a Mr Thomas am baratoi'r plant. Dyma aelodau'r tîm - Owen Rowcliffe, Filip P, Rhys Tom, Connor J, Lucy Davis, Kodi N, Tegan M, Mia H, Leah H.

Dyma'r canlyniadau unigol:- Owen Rowcliffe – 1af -100 metr a Naid Uchel. Filip Poczek – 1af -Naid Hir, Mia Hibbert – 4ydd Naid Uchel, Tegan 5ed Naid Hir, Connor 7fed – Shot, Ras gyfnewid bechgyn - 3ydd. Bydd Owen a Filip yn cynrychioli Dyfed mewn cystadleuaeth yn erbyn Gorllewin Morgannwg ym Mis Gorffennaf.

Bu blwyddyn 5 ar daith addysgiadol i Dŷ Pili Pala ac i Orsaf Bwêr Cwm Rheidiol fel rhan o'u thema y tymor yma. Cafwyd diwrnod gwych. Diolch i Mr Jones am drefnu.

Ysgol Bro Pedr - Hŷn

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar eu llwyddiannau yn ystod yr Eisteddfod: Daeth Sara Thomas yn 2il yn y gystadleuaeth Dylunio a Thechnoleg bl.10 a dan 19 oed ac yn 2il hefyd yn y gystadleuaeth Celf dan 19 oed. Daeth Kate Jones yn 1af yn y gystadleuaeth CAD/CAM dan 19. Daeth Owain Jones yn 2il yn y gystadleuaeth CAD/CAM bl.7-9. Daeth Cerys Pollock yn 3ydd yn y gystadleuaeth barddoniaeth i fl.9, a daeth Grŵp Josh yn 3ydd yn y Gwaith Grŵp 3D Creadigol dan 25 oed (A.A).

Llongyfarchiadau mawr i Nathan Jones o flwyddyn 10 hefyd, sydd wedi ennill ei wregys 'Brown 1' ym mis Ebrill. Mae Nathan yn aelod o glwb Welsh Dragons Aberystwyth a hoffai ddiolch i Paul James am ei waith hyfforddi.

Cafwyd gweithdy llwyddiannus iawn yng nghwmni 'Ynni Da' ar ddydd Iau, Mai'r 14eg. Dyma rhan o'r paratodau ar gyfer ymgyrch ynni Bro Pedr yn y dyfodol agos.

Dros hanner tymor mis Chwefror bu Miss Hughes a Mrs Williams ar daith i Lesotho, i barhau â phartneriaeth hir Ysgol Bro Pedr gydag Ysgol St

James' ym Mokotlong. Ar ôl taith hir iawn o 9 awr ar awyren a dwy awr ar bymtheg mewn bysiau mini a 4WD's, heb anghofio am y profiad arbennig ac anghyfforddus o yrru dros fynyddoedd ac ar ochr clogwyni cul, cyrhaeddodd yn St James'. Daeth y brifathrawes, y chwaer Anna, i'n cyfarfod ac yna fe gawsom gân o groeso cynnes wrth weddill y staff a'n ffrindiau parod wrth i ni gyrraedd yr ysgol. Roedd yn wythnos anhygoel. Cawsom gyfleoedd i weithio gydag athrawon o'r ysgol mewn sawl clwb ac mewn amrywiaeth o bwyllgorau, gan gynnwys Cyngor yr Ysgol a'r Clwb Eco. Soniodd yr athrawon am lwyddiant a chynnydd y clybiau ysgol amrywiol, heb anghofio am y clwb eco sydd wedi mynd ati i adnewyddu tirwedd yr ysgol. Cawsom gyfle hefyd i gwrdd â disgyblion ysgol St James' a siarad am fywyd ym Mokotlong ac yn St James'. Hyfryd oedd clywed y disgyblion yn siarad am eu gobeithion a'u cynlluniau am y dyfodol. Mynd am dro i Sani Pass, un o'r mynyddoedd uchaf yn Affrica, oedd un o brofiadau gorau'r daith. Cawsom gyfle i gerdded wrth ymyl cul y mynydd, cael picnic mewn golygfa anhygoel a chwrdd â'r bugeiliaid lleol. Ar ddiwedd ein hwythnos yn St James, cynhaliwyd Makete traddodiadol, sef perfformiad diwylliannol lle cafodd y disgyblion gyfle i ddangos eu sgiliau dawnsio a chanu arbennig. Cafodd Miss Hughes a minnau siawns i wisgo'r wisg draddodiadol hyd yn oed. Dyma brofiad bythgofiadwy! Daeth ein hwythnos yn St James i'w derfyn yn rhy fuan a bu'n rhaid dechrau'r daith hir yn ôl i Gymru. Serch hynny, cafodd y ddwy ohonom brofiadau anhygoel ac wedi mwynhau bob munud o'm hamser yn Lesotho. Rydym yn awyddus iawn i weld staff St James yn dod draw i'n gweld yn nhymer yr haf.'

Cynhaliwyd Ffair Lyfrau Scholastic yn llyfrgell y campws hŷn o ddydd Llun, Mawrth 23ain i ddydd Gwener y 27ain. Cafodd y disgyblion a rhieni gyfle i ymweld â'r ffair i weld y llyfrau darllen Saesneg newydd sydd ar gael i blant a hefyd cyfle i brynu. Mae pob llyfr a werthwyd yn rhoi pwyntiau gwobr i'r ysgol i'w gwario ar lyfrau am ddim o'r cwmni ac yn ystod y ffair llwyddwyd godi gwerth £233 tuag at lyfrau newydd i'r llyfrgell. Mae'r cynorthwywyr llyfrgell wedi dewis y llyfrau newydd ac maent ar gael i'w benthg o'r llyfrgell - cofiwch alw draw!

Llongyfarchiadau mawr i Tomos Jones o flwyddyn 9 sydd wedi cael ei ddewis ar gyfer carfan Criced Cymru dan 14 oed eleni – dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol iddo gael ei ddewis i gynrychioli Cymru. Bydd y tîm yn chwarae yn yr 'ECB Cup' yn ystod yr haf (10 o gemau grŵp), gyda'r gêm gyntaf yn erbyn Wiltshire ar Fehefin 7fed yng Nghlwb Criced Mynwy. Mae'n bosib bydd modd chwarae hyd at 16 gêm ar y cyfan gan ddibynnu pa mor llwyddiannus fydd y tîm. Mae Tomos hefyd wedi ei ddewis i chwarae yn y tîm o 11 a fydd yn cynrychioli Cymru dan 15 oed wythnos nesaf yn erbyn Yorkshire yn Harrogate. Fe yw'r unig un o'r chwaraewyr yn y garfan dan 14 oed sydd wedi ei ddewis, felly mae hyn yn dipyn o anrhydedd iddo. Byddant yn teithio i Harrogate ar y dydd Sul, a chwarae yn erbyn Yorkshire ar y dydd Llun a'r dydd Mawrth. Hyd yn hyn mae Tomos wedi cynrychioli Cymru 38 o weithiau - dim yn bell o'r hanner cant!

Cafwyd tē parti i ffarwelio â blwyddyn 13 ar ddydd Gwener, Mai'r 22ain. Pob lwc iddynt yn eu harholiadau ac yn y dyfodol.

Ar ddydd Sul, Mai'r 17eg bu aelodau o staff yr ysgol, sef Wendy Griffiths, Linda Morgan, Sian Elin-Davies, Vivienne Bowen a Linda Morgan yn cymryd rhan yn y ras am fywyd yn Aberystwyth. Llwyddwyd i godi swm o £537 ar gyfer Ymchwil Cancer. Diolch i bawb sydd wedi eu cefnogi.

Bu Gethin Morgans a Naiomi Davies, aelodau o'r Pwyllgor Cymreictod

Ysgol Bro Pedr

yn gwerthu Cennin Pedr er mwyn codi arian ar gyfer Gofal Cancr Marie Curie yn ddiweddar. Codwyd cyfanswm o £78.87. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.



Enillwyd Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg Adran Ganol Clwb y Rotari a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y Bontfaen gan dîm o Ysgol Bro Pedr. O'r chwith - Eleri James, Lucy Hill a Bea Cassidy. Enillodd Lucy y siaradwraig orau. Yn y llun hefyd mae David Williams, y Pennaeth.

Llanwnnen a Llanwenog



Sefydliad y Merched Llanwenog yn trosglwyddo y sgrôl i Mrs Dorothy Lloyd, Llywydd Cangen Llambled yng Nghaffi'r Hedyn Mwstard. [Mwy o hanes ar dudalen 19].



Cangen Sefydliad y Merched Dihewyd yn trosglwyddo'r eitemau i Gangen Sefydliad y Merched Llanwnnen yn Festri Capel-y-Groes. [Hanes ar dud 19]



Ar ddydd Sul, Mai 24ain cynhaliwyd Taith Tractorau Drefach i godi arian i Ambiwylans Awyr Cymru a Chlwb Cledlyn. Bu dros 60 o dractorau ar y daith.

Llanfair Clydogau

Ras y Barcud Coch

Llongyfarchiadau i Ffion Quan, Sŵn yr Afon am ddod yn bedwerydd yn Ras y Barcud Coch ym Mhontarfynach yn ddiweddar. Canlyniad ffantasdig. Da iawn ti.

Dathlu

Llongyfarchiadau cynnes i Deborah a Dai Jones, Llanfair Fach, sydd newydd ddathlu eu priodas ruddem.

Gŵyl Fai Merched y Wawr, Ceredigion.

Llongyfarchiadau i Aerwen Griffiths, Pengarn, a enillodd y wobwr gyntaf am ei gwaith celf o dan y teitl 'Abaty neu rhan o Abaty'. Y llun a gipiodd y wobwr oedd ei llun o Abaty Ystrad Fflur. Bydd y llun yn mynd ymlaen i Sioe Frenhinol Cymru yn Llanellwedd fel rhan o enillwyr cystadleuaeth Cwpan Radi Thomas ac yn cynrychioli Ceredigion.

Mae llawer o bobl Llanfair dros y blynyddoedd wedi bod yn aelodau brwd o G.Ff.I.Llanddewi Brefi ac felly hoffem ddyuno yn dda i'r clwb sydd yn gyfrifol eleni am drefnu Rali y Sir gan mae nhw oedd enillwyr y llynedd. Bydd y Rali yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, Mehefin 6ed yn Llanddewi. Pob hwyl yn y gwaith. Bydd croeso i bawb. Fel rhan o'r dathlu bydd hefyd Gymanfa Ganu ar ddydd Sul

Mehefin y 7fed.

Apêl Daeargryn Nepal.

Er mwyn codi arian i'r Apêl, mae Gwyneth Jones, Noyadd wedi trefnu i Elinor Morgan, o Lanbed sydd wedi bod allan yn Nepal, i ddod i siarad a dangos ffilm am y wlad. Mae'r noson i gael ei chynnal yn y neuadd ar Fehefin 20 fed am 7.30 y.h. Bydd croeso i bawb, gyda lluniaeth ysgafn a'r arian i gyd yn mynd i Gymorth Cristnogol Apêl Nepal.

Sefydliad y Merched.

Cafwyd noson o weithio brwd yn creu blychau wedi eu gorchuddio â defnydd. Roedd gwybodaeth am sut i wneud rhain wedi dod mewn pecyn gweithred arbennig wedi ei baratoi gan S.Y. M. Gan fod hwn yn gymhleth roedd Paula a Caroline wedi paratoi y card i bob blwch yn barod ac yna pob un yn dewis eu defnydd ac yn eu wnïo gyda nodwydd gam dros bob rhan o'r blwch cyn ei roi at ei gilydd i wneud y blwch gorffenedig. Gan fod hwn yn waith hir a diwyd mae pawb wrthi o hyd. Mae Caroline wedi cynnig gwobr i'r blwch mwyaf taclus a del. Sialens i bawb i orffen tybed? Gobeithio y cawn arddangosfa o'r gwaith arbennig yma.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Mae materion iechyd unwaith eto wedi bod yn hawlio sylw yn yr wythnosau diwethaf. Daeth cam ymlaen wrth i'r bwrdd cydweithredol newydd sy'n cynllunio gwasanaethau yn y canolbarth gwrrd am y tro cyntaf. Edrychaf ymlaen at weld ei argymhellion ar agweddau hollbwysig fel gwasanaethau mamolaeth, gofal y galon a llawdriniaeth ym Mronglais, yn ogystal â recriwtio mwy o feddygon teulu. Cefais hefyd gyfle i gwrdd â nyrsys Marie Curie i drafod y fenter sydd ganddynt i ddarparu gofal diwedd-oes yn ne Ceredigion, ac i holi'r Gweinidog Iechyd ar y diffyg gwelyau ar gyfer iechyd meddwl.

O ran yr economi leol, da gweld y bydd y gostyngiad Trethi Busnes i fusnesau bach yng Nghymru yn cael ei ymestyn o £1000 i £1500 y flwyddyn nesa. Mae hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir, ond mae polisïau Llywodraeth Cymru o ran caffael cyhoeddus yn dal i beri pryder i mi. Yn gynyddol, mae contractau i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau fel glanhau yn cael eu dyfarnu ar lefel genedlaethol, gan ffafrio cwmnïau mawr ar draul rhai bychain lleol. Byddaf yn parhau i ddadlau'r achos dros roi gymaint â phosib o gcontractau cyhoeddus i fusnesau cynhenid.

Un darn o newyddion fydd yn sicr derbyn croeso gan fusnesau yng ngogledd y sir yw'r ffaith fod yr ymgyrch 10-mllynedd dros wasanaeth trên gwell i Aberystwyth wedi dwyn ffrwyth. Nawr, mae trenau ychwanegol yn rhedeg o Aberystwyth am 6.30, 8.30, 12.30 ac 18.30. Daeth hyn o ganlyniad i fuddsoddiad o £13 miliwn ar uwchraddio'r cleddau yng nghyfnod Ieuan Wyn Jones fel Gweinidog Trafnidiaeth, ac ymgyrchu gan nifer o grwpiau ac unigolion dros gyfnod hir. Rwy'n hyderus y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, ac felly'n hwb i ymgyrchoedd eraill dros fuddsoddiad mewn trafndiaeth gyhoeddus – boed hynny'n drên neu fws – ar draws y gorllewin.

Cefais gyfle hefyd i holi'r Prif Weinidog ynglŷn â chanmlwyddiant geni T. Llew Jones. Mae cymaint yn mynd ymlaen i ddathlu cyfraniad yr awdur i Geredigion a llenyddiaeth Cymru – gan gynnwys drama gan Arad Goch a digwyddiadau yn eisteddfodau'r haf a Gŵyl Nôl a Mla'n – a byddai'n wych petai Llywodraeth Cymru'n medru hybu'r rhain.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAI,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigryn
Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems
* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164
07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi *duvets*.



Cwmsychpant

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Cerys Pollock, Brynmeddyg ar ennill y 3ydd wobwr am ysgrifennu Barddoniaeth i ddisgyblion Bl 9 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerffili 2015. Da iawn Cerys a dalia ati.

Diolch

Yn dilyn marwolaeth Eileen Davies, Neuadd Isaf, Prengwyn gynt dymuna'r teulu ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd tuag atynt yn eu colled. Diolch hefyd am y casgliad coffa. Cyflwynwyd sieciau o £355 yr un i Gapel Pantydefaid a oedd yn agos iawn at ei chalon ac i Gartref Alltymynydd a diolch iddynt hwy am y gofal tyner a dderbyniodd yno.

Cystadlu yn yr Urdd

Hyfryd oedd gweld nifer o wynebau plant yr ardal ar y teledu yn cystadlu gyda gwahanol grwpiau adeg Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili yn ystod yr wythnos diwethaf. Da iawn chi i gyd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn fawr â Wyn Davies, Tyngrug Uchaf ar farwolaeth ei fam Nancy ac â'r teulu oll.

Gorsgoch

Diolch

Hoffwn ddiolch i bob un a wnaeth fy nghefnogi ar fy nhait i Awstralia yn ariannol ac yn gynorthwyol. Roedd hi'n brofiad anhygoel â gafodd ei wneud yn well oherwydd eich cefnogaeth. Er na wnaethom ennill y gystadleuaeth, roedd hi'n hynod o anrhydedd i chwarae yn erbyn gwledydd fel De Affrica, Samoa, UDA a Fiji yn ogystal â llawer o wledydd eraill. Diolch yn fawr eto i chi i gyd. Iwan Evans, Parcyrrhos.

Dymuna Ieuan James, Ael y Bryn, Heol Maestir, Llambed ddiolch i'r teulu lu a ffrindiau am ddod i Gapel y Bedyddwyr Brynhafod, Gorsgoch i wasanaeth i ddiolch am fywyd ei ddiweddar wraig Eluned.

Diolch i Jill Tomos, y gweinidog a'r Parch Goronwy Evans, Llambed am eu gwasanaeth ac i Mrs Brenda Jones am fod wrth yr organ, i'r archgludwyr, i aelodau Brynhafod am y blodau yn y Capel. Diolch i Mrs Sirian Davies am weini'r bwyd ar ddiwrnod yr angladd ym Mrynafod ac hefyd i Cenfil ac Iona Reeves am ei gwasanaeth anrhydeddus fel ymgymerwyr angladdol.

Derbyniodd bentwr o gardiau cydymdeimlad ar yr aelwyd ac mae yn gwerthfawrogi yr holl roddion ac arian a dderbyniwyd tuag at Ambiwylans Awyr Cymru er cof am Eluned.

Diolch unwaith eto i bawb – gwerthfawrogi'r cyfan oll.

Gwellhad buan

Gobeithio y bydd Alwena Williams, Awel-y-Gors yn well yn gloi yn dilyn ei hanffawd.

MiS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Gwaeth na'r pryderon gwaetha'

Mae pob tad neu fam yn gallu dychmygu'r peth ... heb ddod yn agos at y teimlad go iawn.

Mae pob un ohonon ni wedi clywed y gnoc yna yn y dychmyg, neu gloch y drws neu'r ffôn yn canu yn yr oriau mân.

Ryden ni i gyd wedi hanner ofni agor cil y llenni a gweld cysgodion yno yn y tywyllwch, mewn iwnniform.

Ac, eto, hyd yn oed ynghanol yr ofnau dyfna', all neb ohonon ni amgyffred yr arswyd pan fydd y gwaetha'n digwydd.

Ac mae newydd ddigwydd eto i ddau grwt yn yr ardal yma. Y ddamwain yn oriau mân y bore a cheir a bywydau'n chwilfrw. Nid dim ond bywydau'r ddau fachgen ifanc ond eu teuluoedd, eu ffrindiau a phawb oedd ynghlwm â'r ddamwain.

Do'n i ddim yn adnabod Curtis Evans nac Aaron Hunter ond, fel pawb arall yn yr ardal, yn gwybod am eu perthnasau, wedi eu gweld nhw o gwmpas y lle.

Roedd tristwch y cyfan i'w weld yn glir yng ngwaelod Llanybydder y noson o'r blaen, yn llif y bobol yn eu dillad du trwy byrth yr eglwys adeg y gwasanaeth teyrnged. Yr hyn oedd yn ddychryn oedd gweld yr wynebau ... yn ifanc, bron bob un. Hen bobol sydd i fod mewn gwasanaethau felly.

Ac eto, mewn ffordd ddwys iawn, mae digwyddiad fel y ddamwain ym Mheniel yn briwio ardal; yn ein ffordd fach, ryden ni i gyd yn teimlo colled. Heb eu hadnabod nhw, ryden ni'n adnabod yr amgylchiadau.

Ac mae'n digwydd yn llawer rhy aml a, bron bob tro, i bobol ifanc.

Yma ac acw ar hyd y priffyrdd, ar ddarnau cyflym neu ar gorneli, mae yna flodau'n greithiau amlwg a phob tusw'n bendrwm efo hiraeth a galar.

Damwain car ydi hunllef ein bywydau modern. Mewn rhyfel, mae yna baratoi a hanner-disgwyl am yr ergyd; efo salwch, mae yna ymdopi, bron; ond mae damwain ffordd yn ddychrynlyd o ddirugaredd.

Y gwrthdaro ffyrnig mewn amgylchiadau sy'n rhannol gyfrifol am hynny. Mi allwn ni ddychmygu hynny hefyd ... yr un ifanc yn gadael y tŷ yn wên a brwdfrydedd i gyd a dim byd wedyn tan y gnoc ar y drws.

Mi fydd yna gwest a phenderfynu beth ddigwyddodd ond does yna fawr o ddiben bellach ceisio dweud a oedd bai ai peidio. Mae'r holl ddamweiniau yn y diwedd yn ymwneud â'n perthynas gymhleth ni â cheir.

Yn yr oriau mân y bydd damweiniau o'r fath yn digwydd; arwydd o'r antur sydd ynghlwm wrth yrru. Hyd yn oed i ddyn canol oed, mae yna gyffro i'w gael wrth yrru trwy'r tywyllwch.

Mae'n ffaith mai pobol ifanc sydd, yn amlach na pheidio, mewn damweiniau fel hyn. Y rhai lleia' profiadol o ran gyrru ac, oherwydd amgylchiadau naturiol, yn berchen ar y ceir lleia' addas.

Dw i'n cofio plismon yn disgrifio fel y bydd ceir bychain – y math sydd gan lawer o yrrwyr ifanc – yn gallu codi oddi ar yr hewl ac un camgymeriad bach yn ddigon i'w taflu i'r awyr. Mae ceir mwy yn fwy maddeugar.

Mi wyddon ni hyn i gyd ac mae'r papurau lleol, dro ar ôl tro, wedi dangos y lluniau ac adrodd y straeon, wedi dyfynnu'r prifathrawon, y ffrindiau a'r perthnasau'n sôn am y golled ac wedi dyfynnu'r plismyn yn pwysleisio pa mor beryglus ydi ceir.

Ond, eto, rhywsut, mae'r damweiniau'n dal i ddigwydd a ffyrdd fel y rhai sydd gyda ni yn fwy peryglus na'r holl draffyrdd a'r ffyrdd dinesig. Sawl damwain sydd wedi digwydd ar drofeydd sydyn sy'n dilyn darn hir a syth?

Mi all gwella ffyrdd wneud rhywfaint o wahaniaeth ond mae yna hen ddigon o gyfyngiadau cyflymder ar y ffordd rhwng fan hyn a Chaerfyrddin ... nid dyna ydi'r ateb chwaith.

Yr unig beth a allai weithio ydi llwyddo i ddychmygu galar a cholled y ddau deulu yn ein hardal ni.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus
Clwb Rygbi Llambed yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 3.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau
- Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd
- Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*



Lifft
cyfleus
yn ei le i
fynd lan
llofft

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Llangybi a Betws

Hamdden

Cyfarfu yr aelodau ar Fai 1af yn Ysgol Y Dderi dan lywyddiaeth Dilys Godfrey a hi fu yn estyn croeso cynnes i'r gŵr gwadd sef Mr Selwyn Walters o Lamed – gŵr sydd yn adnabyddus i lawer. Cafwyd anerchiad diddorol ganddo am hanes a pham a sut y bu i Amgueddfa Llamed gael ei sefydlu. Mae'r fenter yn cael ei rhedeg yn rhan amser gan wirfoddolwyr am dri diwrnod yr wythnos ac nid oes tâl am fynediad. Os oes gan rywun hen luniau o'r ardal fe fyddai yr Amgueddfa yn falch eu cael. Gellir rhoddi eitemau, eu benthyg dros dro, neu gellir sganio lluniau. Cafwyd hanes gwraig a fu yn fferm Olwen ac yn aelod o'r awyrlu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Oes yna berthnasau iddi yn byw yn yr ardal o hyd? Gwen oedd ei henw ac yr oedd yn wniadurwarig fendigedig. Diolchwyd iddo yn gynnes iawn am brynhawn hyfryd a diddorol yn llawn o hanesion a digwyddiadau lleol gan Sally Davies.

Enillwyr y raffl oedd Barry Williams, Morina Davies, Sally Davies, Alunda Jones, Glenys Lloyd, Gwen Lewis a Rowena Williams. Swyddogion y tymor nesaf fydd Llywydd: Dilys Godfrey, Is-Lywydd: Janet Farrow, Trysorydd: Sally Davies, Ysgrifenyddes: Mair Spate.

I ddiweddu y cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoddi gan Sally Davies ac Alunda Jones.

Cofiwch am y Trip Blynnyddol ar Fehefin 5ed pryd yr ymwelir ag Aberystwyth gyda thaith trêni i fyni Consitution Hill, ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol i weld tai fideo a phryd o fwyd yn y Llew Du yn Llanbadarn cyn dychwelyd adref.

Cydymdeimlo

Estynir cydymdeimlad dwys y fro â theulu Morfa sydd wedi bod mewn profedigaeth lem yn ddiweddar.

Yn yr ymmodd cydymdeimlir â theulu Llety Gwyn hwythau hefyd wedi cael profedigaeth enbyd. Cydymdeimlir â holl gysylltiadau teuluol a ffrindiau y ddau deulu. Trist hefyd yw cofnodi marwolaeth Miss Gwenda Thomas o Gwmann, un a fu yn aelod ffyddlon i 'Hamdden' am flynyddoedd lawer. Ac hefyd fe gydymdeimlir yn ddwys iawn â'r Cyng Helen Duffee, Awelfa yn ei phrofedigaeth lem ar farwolaeth ei merch yn ddiweddar ac hefyd â holl gysylltiadau teuluol a ffrindiau.

Merched y Wawr Y Dderi

Treuliwyd prynhawn hyfryd iawn ar Fai 20fed yn troedio o amgylch gerddi Yr Hen Efail yn Llanio. Yno, cawsom groeso cynnes iawn gan Mr a Mrs Yeomans. Mae'r ddau yma wedi gweithio yn ddiwyd ac yn grefftus iawn ac wedi llwyddo i gynhyrchu llysiau di-ri, blodau

a diogelu bywyd gwyllt a newid arwynebedd y tir o amgylch eu cartref. Mae'n awr yn rhandir a choedwig fechan lle roedd cae naw cyfer. Mae'r cyfan yn wledd i'r llygad a chreu balchder yn hen hanes yr ardal. Efail oedd yr adeilad a'r mul oedd yn cadw'r fegin i weithio wedi ei anfarwoli yn un o'r gerddi gan grefftwr lleol. Prynhawn diddorol a bendigedig. Rhoddwyd pleidlais o ddolch wresog i'r perchnogion am y croeso twymgalon ac hanes eu menter gan y llywydd Gwyneth Jones. I ddiweddu yr ymweliad cawsom de prynhawn blasus iawn wedi ei baratoi gan Mr a Mrs Yeomans.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Y Dderi am 7.00y.h. ar Fehefin 17eg. Dewch â syniadau gogyfer â Rhaglen y tymor nesaf.

Maesyffynnon

Cynhelir Cyngerdd Blynnyddol Maesyffynnon ar Fehefin 21ain am 7.30y.h. Yr artistiaid gwadd yw Côr Clychau'r Fedwen dan arweiniad y Canon Aled Williams. Cadeiryddes y noson yw Mrs Enid Thomas, Casnewydd yn awr ond o Faorest Lane, Llangybi yn wreiddiol. Mynediad £5 a'r elw i Gapel Maesyffynnon. Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Y Dderi

Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant ddaeth yn fuddugol yn y cystadlaethau Celf a Chrefft, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerffili. Jago Gaiger 1af, Pyped Blwyddyn 3 a 4; Ffion Edwards 1af, argraffu ar ffabrig blwyddyn 2 ac Iau; Jorge, Steffan, Ben a Ffion Davies 1af, Grŵp pypedau blwyddyn 3 a 4; Lily Dafydd Gruffydd a Nathan, 3ydd Cywaith Crochenwaith; Grŵp Tomos 3ydd, Creu arteffact.

Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion blwyddyn 6 a fu'n llunio gwefan ar gyfer cystadleuaeth yr Urdd. Enillodd y wefan yr ail safle dros Gymru. Campus wir. Bydd cyfle i weld eu gwaith ar safle'r Eisteddfod yng Nghaerffili.

Bu Gruffydd Llwyd Dafydd, yn cynrychioli'r ysgol a Cheredigion yng nghystadleuaeth Cerdd Dant Blwyddyn 3 a 4, yn Eisteddfod yr Urdd Caerffili.

Fel rhan o'u gwaith thema "Duwiau a Gladiatoriad" bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn ymweld â Dolaucothi am ddiwrnod Rhufeinig. Bu'r plant yn gwisgo fel milwyr Rhufeinig, ac yn cloddio am aur ac yn dysgu am hanes y garreg a'r pum saint! Cafwyd diwrnod i'r brenin.

Hefyd fel rhan o'u gwaith thema, aeth disgyblion blwyddyn 3 a 4 i fyni i Garreg y Bwci, i gwrdd â'r hanesydd lleol Alan Leech, i ddysgu



Disgyblion Ysgol y Dderi a enillodd wobrau fel unigolion neu grwpiau yng nghystadleuaethau celf a chrefft Eisteddfod yr Urdd Caerffili a'r Cylch.



Disgyblion Ysgol y Dderi a enillodd y Fedal Arian yng nghystadleuaeth Creu Gwefan yn Eisteddfod yr Urdd Caerffili a'r Cylch.

am hanes heol Sarn Helen, ac am gyfraniad y Rhufeiniad yn yr ardal. Cafwyd sgwrs ddifyr iawn yn ei gwmni. Diolch iddo am roi o'i amser yn hael i'n dysgu.

Aeth Dafydd, Nathan, Lily, Tirion, Lisa, Alex, Jake a Bonnie gyda Mrs Ann a Miss Donna, yr holl ffordd i'r Eidal am wythnos! Bu'r plant yn ymweld â Thŵr enwog Pisa, cyn teithio draw i Ynys Elba i gwrdd â'n ffrindiau Eidalaidd. Diolch i'r athrawon am roi'r cyfle bythgofiadwy yma i'n plant.

Roedd disgyblion blwyddyn 1 a 2 wrth eu boddau yn cymryd rhan yn Chwaraeon Potes Cylch Llanbed yn ddiweddar. Roedd pawb wedi mwynhau cael y cyfle i ymarfer sgiliau chwaraeon, a chyfle i gymdeithasu gyda ffrindiau newydd.

"Troi a lllifo" yw thema blwyddyn 6, a chafwyd diwrnod buddiol iawn yn Amgueddfa Wlân Drefach Felindre, yn dysgu am hanes y diwydiant gwlân yn nyffryn Teifi. Dysgodd y plant am yr holl gamau sydd ynghlwm wrth nyddu, gan weld y rhod yn troi i roi nerth i'r holl beiriannau gwehyddu! Cafwyd gweithdy ffeltio yn y prynhawn, a phawb wedi elwa o'r profiad dysgu cyfoethog yma.

Croesawyd wyth o Eidalwyr i Ysgol Y Dderi am wythnos gyfan fel rhan o'n gwaith Comeniws. Daeth tair athrawes a phump disgybl draw o Agliana, ger Florence. Buom yn cerdded Cors Caron, Bowlio 10,

Sinema, Soar y Mynydd a llawer mwy! Does dim rhyfedd nad oedd yr wyth eisiau mynd adref!

Daeth yr awdur lleol Gareth James i'r ysgol, i drafod ei lyfr diweddaraf sydd ar gweill (cyfrinachol!), ac i drafod ei waith yn gyffredinol fel awdur. Mae'n ddyn prysur a thalentog iawn, a chafodd y plant brofiad gwych yn ei holi. Diolch o galon iddo am ymweld â ni.

Noddwyd Cinio Organig yn yr ysgol o gig eidion, tatws a salad, ac i ddilyn hufen iâ organig gyda chwli eirin duon. Roedd pawb wedi mwynhau y wledd, a chroesawyd Jane Powell o Ganolfan Organig Cymru i ymuno â ni. Roedd y bywyd yn flasus IAWN. Mae plant Y Dderi yn ymwybodol iawn o fanteision bwyd organig, ac yn hyrwyddo'r neges yn gyson trwy gynnal ardd organig ar safle'r ysgol, a gwerthu'r cynnyrch i rieni!

Eisteddfodau

Llongyfarchiadau i Cerys Angharad o Langybi a enillodd yn yr Eisteddfodau lleol: Eisteddfod yr Hendy - 1af llefaru blwyddyn 2 ac Iau, 2il canu blwyddyn 2 ac Iau.

Eisteddfod Llandudoch - 1af canu blwyddyn 1 a 2; 1af llefaru blwyddyn 1 a 2, yno ogystal â Gwobr Her Calon Ifanc Llandudoch i'r perfformiad llwyfan unigol gorau yn yr holl gystadleuaethau hyd at flwyddyn 2.

C.Ff.I. Ceredigion

Mae mis Mai wedi bod yn fis llawn cystadlu a joio! Trip lawr i Torquay a Chwaraeon y Sir sydd wedi bod ar galendr y ffermwyr ifanc!

Penwythnos CCB FfCCFfi yn Torquay

Teithiodd dros hanner cant o aelodau i lawr i Torquay ar gyfer penwythnos Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol Ffederasiwn Cenedlaethol Clybiau Ffermwyr Ifanc. Cafwyd tair noson o joio mas draw o fod mewn gwisg ffansi; gwisg ffurfiol a chrysau-T! Mynychodd rhai o'r aelodau'r cyfarfodydd gan dalu pleidlais ar faterion pwysig y mudiad.

Cwis Iau'r Sir

Fe deithiodd lluo o aelodau i Ogledd y Sir yn Llangeitho a De'r Sir yn Ysgol Dyffryn Teifi i gystadlu yng Nghwis Iau'r Sir. Ar ôl y cystadlu brwd daeth Pontsian i'r 3ydd safle, Felinfach B i'r 2il safle a Felinfach A yn 1af.

Cwis Hŷn y Sir

Cynhaliwyd Cwis Hŷn y Sir ar gampws Prifysgol Drindod Dewi Sant Llambed ar ddiwedd mis Ebrill. Roedd y neuadd yn llawn o aelodau brwd yn barod i ateb cwestiynau a osodwyd gan Lywydd y Sir, Geraint Hatcher. Cafwyd nifer o gategoriâu gwahanol yn cynnwys Hanes, Cymru a Sêr ffilm a theledu. Clwb Llanddewi Brefi oedd enillwyr y Cwis Cyffredinol gyda Chaerweddros a Felinfach yn gydradd 2il. Yn adran amaethyddol roedd yna gydradd gyntaf sef Caerweddros a Llangwryfon gyda Pontsian yn drydydd. Hefyd cafwyd Cwis Diogelwch y Ffyrdd gyda gwobr wedi ei noddi gan Adran Ddiogelwch y Ffyrdd, Cyngor Sir Ceredigion. Mae'n debyg taw Clwb Mydroilyn yw'r gyrrwyr mwyaf gofalus, wrth iddynt ennill y cwis, gyda Llanwenog yn 2il a Felinfach a Chaerweddros yn gydradd 3ydd. Ar ddiwedd y cystadlu, daeth Caerweddros i'r brig, Mydroilyn yn 2il a Felinfach yn 3ydd - dyma chi frêns y Sir felly!

Chwaraeon y Sir

Bwriadwyd cynnal holl gystadlaethau'r Chwaraeon ar ddydd Sadwrn y 9fed o Fai ond yn anffodus oherwydd glaw trwm y diwrnod cynt nid oedd modd cynnal rhan fwyaf o'r cystadlaethau. Cynhaliwyd y Pêl-droed Iau a Hŷn a hefyd y gystadlaethau Hoci Cymysg Hŷn. Diolch yn fawr i'r dyfarnwyr am roi o'u hamser. Yng nghystadlaethau y Pêl-droed Iau daeth Llanwenog i'r 3ydd safle, Felinfach yn 2il a Llangeitho yn ennill! Cafwyd gêm

hoci gystadleuol rhwng Pontsian a Llanwenog gyda Phontsian yn ennill y gystadlaethau gyda 5 gôl i 1! Pontsian enillodd y gystadlaethau Pêl-droed hŷn hefyd - da iawn chi, gyda Llanwenog yn 2il a Llangwryfon yn 3ydd. Mi fydd gweddill y cystadlaethau Chwaraeon yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Hamdden Llambed ar Nos Wener y 12fed o Fehefin am 6.30yh.



Dyma lun o dîm hoci buddugol Pontsian.

Paratoi ar gyfer y Rali!

Mae holl glybiau'r Sir yn brysur ar hyn o bryd yn paratoi gogyfer â'r Rali wrth ymarfer dawnsio, coginio, canu a barnu stoc. Cafwyd Hyfforddiant Trin Gwlân llwyddiannus ar Fferm Moelifer yn gynharach yn y mis ac yna penderfynwyd cynnal hyfforddiant arall yn ôl galw'r aelodau ar Fferm Tynant. Cadwch lygaid mas am arwyddion yn hysbysu'r Rali ar hyd a lled y Sir.

Dyma lun o arwydd Clwb Llanddewi- y clwb sy'n cynnal y Rali eleni.



Rali

Cofiwch am Rali C.Ff.I. Dydd Sadwrn y 6ed o Fehefin ar fferm Prysg, Llanddewi Brefi a'r Ddawns ar fferm Pistyllgwyn, Llanddewi Brefi gyda Fat Barry's Soul Band. Dyma tro cyntaf i Llanddewi Brefi gynnal y Rali ers dros ddeugain mlynedd!

I Ddod.....

- Dydd Sadwrn y 6ed o Fehefin: Rali'r Sir, Llanddewi Brefi
- Nos Sul y 7fed o Fehefin: Cymanfa'r Rali, Capel Bethesda, Llanddewi Brefi
- Nos Wener, 12fed o Fehefin: Chwaraeon y Sir - Canolfan Hamdden Llambed

- Nos Fercher y 17eg o Fehefin: Pwyllgorau'r Sir, Canolfan Addysg Felinfach

- Nos Wener y 19eg o Fehefin: Cystadlaeth Rygbi 7 bob ochr,

- Dydd Sul yr 21ain o Fehefin: Chwaraeon C.Ff.I. Cymru

- Nos Fercher, 1af o Orffennaf: Athletau, Cae Ysgol Gyfun Aberaeron

- Nos Wener, 3ydd o Orffennaf: 'It's a Knockout' Fforwm Ieuencid, Celaeron

- Nos Sul y 5ed o Orffennaf: Is-Bwyllgor Splash 2016

Canlyniadau Clwb 200

Ebrill:

1af - Marc a Wendy Jenkins, Ysgubor Wen, Mydroilyn
2il - Gwyneth Ayers, Hydd Gwyn, Llanpumsaint, Caerfyrddin
3ydd - Mererid Jones, Rhosaeron, Felinfach.

Rali C.Ff.I Sir Gâr 2015

Daeth y nosweithiau hir o baratoi ar gyfer y Rali i ben yng nghlybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr ar Ddydd Sadwrn yr 2ail o Fai 2015 a chafwyd diwrnod arbennig o gystadlu brwd ar Faes y Sioe, Nantyci

Yng nghanol y coginio, y cneifio a'r canu daeth cannoedd o bobl i gefnogi'r aelodau a chael gweld eu gwaith safonol iawn. Yn sicr, roedd gwaith y beirniaid yn sialens!

Ar ôl yr holl gystadlu a'r beirniadu, fe ddaeth yr awr fawr yn y seremoni anrhydeddu Llysgennad & Llysgenhades y Ffermwyr Ieuainc. Llysgenhades newydd y Sir yw Helen Davies, Clwb Llanarthne. Dylan Bowen, yw Llysgennad y Sir ac mae Dylan yn aelod o Glwb Capel Iwan. Dirprwyon y ddau eleni yw Liz Davies, o Glwb Llangadog ac Andrew Howells, Clwb Penybont. Yn ogystal â'r Llysgenhaden, fe anrhydeddwyd Aelod Iau a Hŷn y flwyddyn sef Owain Davies, o Glwb Llanllwni fel aelod Iau y flwyddyn a Mathew Jones, Clwb Dyffryn Tywi fel aelod

Hŷn y flwyddyn. Anrhydeddwyd Stocmon Iau y flwyddyn hefyd sef William Griffiths, Glascoed, San Clêr o Glwb San Clêr am y drydydd tro'n olynol. Llwyddodd William i ennill Buwch goffa Aled Howells am Brif Stocmon y flwyddyn hefyd a Ffion Jones, Danycapel, Dryslwyn o Glwb Llanfynydd yn ennill Cwpan Coffa Phillip Davies & Gareth Davies am gipio'r teitl Stocmon Hŷn y flwyddyn.

Cyflwynwyd lluo o wobrau i'r aelodau a llongyfarchiadau i bob un ohonynt ar eu llwyddiant a phob lwc i'r aelodau bydd yn cynrychioli Sir Gâr ar lefel Cenedlaethol.

Ni fyddai'r diwrnod wedi bod yn bosib heb gydweithrediad staff a phwyllgor y Sioe na chwaith i stiwardiaid C.Ff.I Llanfynydd am eu gwaith cyn ac ar ddiwrnod y Rali, i C.Ff.I San Ishmael am stiwardio'r ddawns ac i C.Ff.I Llangadog am stiwardio'r nosweithiau Barnu Stoc. Diolch iddynt hwy a diolch hefyd i'r ffermydd wnaeth ddarparu lleoliadau a stoc i gynnal y nosweithiau Barnu Stoc.

Mae'r Mudiad yn ddibynol iawn ar ewyllys da pobl ac mae hyn yn sicr yn wir am y noddwyr sydd o hyd yn ein cefnogi. Diolch o waelod calon i Fwydydd Castell Howell am fod yn brif noddwr y Rali unwaith eto eleni, ni fyddai'r Rali wedi bod yn bosib heb eich cymorth ariannol. Diolch hefyd i'r noddwyr wnaeth noddi cylchgrawn blyneddol C.Ff.I Sir Gâr sef 'Egin.' Mae copïau o'r cylchgrawn ar gael yn Swyddfa'r Sir.

Diolch i Swyddogion, Llysgenhaden y Sir ac i stiwardiaid y gât ac i bawb arall wnaeth helpu mewn unrhyw fodd. Roedd y Rali'n ddiwrnod llwyddiannus oherwydd eu gwaith caled a chafwyd noson hwylus iawn i ddathlu yn y Ddawns yn Fferm Brynawelon, Llanfynydd gyda diolch i Mr a Mrs Ian Thomas am fodloni i gael y ddawns yno ac am baratoi'r Sied.



John James Llywydd y Sir yn cyflwyno Cwpan Her Silcox i C.Ff.I Llanllwni am ddod yn ail yn Adran Hŷn yn Rali'r Sir.

Llanwnnen

Cydymdeimlad

Danfonwn ein cydymdeimlad llwyr a dwysaf â Mrs Elizabeth Thomas a'r teulu, Pantffynnon ar golli ei brawd sef John Benjamin o Dregaron ar ddiwedd mis Mai.

Ysgol Llanwnnen

Cafodd nifer o ddisgyblion yr ysgol lwyddiant mewn cystadlaethau trawsgwlad yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau mawr i Rhys Williams, blwyddyn 4, ar wneud mor dda mewn nifer o gystadlaethau trawsgwlad yn ddiweddar. Enillodd Rhys y ras bechgyn cynradd yng Nghwrtnnewydd dros Wyl y Banc, dod yn gyntaf yn nhrwsgwlad yr Urdd cylch Llambod ac yna yn ail yn nhrwsgwlad Ceredigion. Aeth ymlaen i'r trawsgwlad cenedlaethol yn Aberystwyth gan ddod yn drydydd yno dros Gymru gyfan.

Cafodd Meredydd Davies gyntaf yn nhrwsgwlad y cylch ar gyfer bechgyn blwyddyn 3, gan ddod yn y 10 cyntaf hefyd yn y sir. Roedd Cadi Evans, Gruffydd Tomos, Beca Jones, Meirion Lloyd a Guto Ebbsworth hefyd yn y 10 uchaf yn y cylch. Aeth y rhain ymlaen i'r ras sirol yn Aberaeron lle daeth Rhys, Meredydd a Cadi yn y deg cyntaf. Cafodd Rhys, Gruffydd a Meredydd brofiad arbennig yn Aberystwyth yn y ras genedlaethol. Arderchog i bawb am wneud mor dda.

Cafodd tîm hoci'r ysgol lwyddiant yn y gystadlaethau cylch a'r sir a byddant yn awr yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf Gorllewin Cymru yng Nghaerfyrddin. Aelodau'r tîm oedd Lucy, Catrin, Steffan Griffiths, Steffan Holmes, Meirion, Guto, Lilly a Steffan Evans a phob dymuniad da yn y rownd nesaf.

Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen daith fendigedig i Aberystwyth i gymharu tref glan y môr gyda phentref Llanwnnen. Cafodd pawb amser da gan weld y Castell a chwarae yn y parc yn Aberystwyth.

Mae dosbarth y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn aros yn amyneddgar i'r wyau ddeor a chroesawu'r cywion bach i'r dosbarth. Mae pawb wedi bod yn gyfrifol yn gofalu amdanynt yn dda.

TYSTEB

Mae Mrs Enfys Llwyd yn ymddeol fel athrawes Cyfnod Sylfaen Ysgol Gynradd Gymunedol Llanwnnen ar ddiwedd tymor yr Haf 2015.

Fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth hir i'r ysgol, trefnir tysteb i'w gyflwyno iddi ar brynghawn yr 11eg o Orffennaf mewn te parti am 2 o'r gloch. Mae croeso i bawb ymuno â ni. Cyfraniadau os dymunir i'r ysgol erbyn Dydd Mercher, 8fed o Orffennaf 2015.

Cwrtnnewydd

Ysgol Cwrtnnewydd



Cynhaliwyd ein Calan Mai blynyddol a braf oedd gweld pawb yn mwynhau. Agorwyd y diwrnod yn swyddogol gan y Prifardd Dylan Iorweth a'i wraig Elaine. Diolch iddynt am eu rhodd haelionus i gronfa'r Ysgol ac hefyd i Elaine am ei haraith bwrpasol. Cafwyd dros gant a hanner o redwyr yn cystadlu yn y rasys amrywiol. Codwyd swm arbennig o £3,700. Diolch unwaith eto eleni am gefnogaeth diflino y rhieni, ffrindiau a chymuned yr Ysgol.

Bu nifer o'r plant yn cynrychioli Urdd Cylch Llanbed yng nghystadlaethau Trawsgwlad a gynhaliwyd yn Aberaeron yn ddiweddar. Cafwyd canlyniadau da iawn.

Cafodd yr Ysgol ei defnyddio fel Gorsaf Bledleisio, felly trefnwyd trip addysgiadol i ymwneud â'r amgylchedd i Fferm Denmarc. Cafwyd diwrnod llawn hwyl a sbri yn tostio 'marshmallow', chwarae gemau ond uchafbwynt y dydd i'r plant oedd cael defnyddio'r toiled compostio!!

Ymunodd plant y Cyfnod Sylfaen gyda phlant Cyfnod Sylfaen Ysgolion Llanwenog a Llanwnnen ar drip addysgiadol i Aberystwyth. Mwynhaodd y plant y daith ar drên Rheilffordd y Graig. Ar ôl cyrraedd y copa buon ni'n edrych i lawr ar dref Aberystwyth. Bwyton ein cinio ar y copa ac yna cychwyn y daith yn ôl ar y trên. Cafwyd cyfle i gasglu cregyn ar y traeth cyn cerdded ar hyd y prom tuag at y castell. Rhaid oedd ymweld â'r parc cyn cychwyn ar ein taith am adref.

Bu blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn dysgu sgiliau ac yn cystadlu yn nhrwngament hoci yn Llanbed. Cafodd y plant ddiwrnod buddiol.

Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Iau Bro Pedr yn cymryd rhan yn Chwaraeon Potes yr Urdd. Cafodd y plant gyfle i ddatblygu gwahanol sgiliau drwy brynghawn o hwyl a sbri.

Cydymdeimlad

Mae'r ardal i gyd yn danfon eu cydymdeimlad mwyaf dwys i Roland a Nicky Hunter, Gwernfryn a'r teulu oll yn dilyn eu colled erchyll o golli Aaron mewn damwain car ddiwedd mis Mai.



Aeth pedair o ferched i gystadlu yn Nhrwsgwlad Cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth. Cafodd y bedair rasys arbennig. Llwyddodd Alaw i ennill y drydydd safle i ferched blwyddyn 5. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Elen a Llyr, 2 Yr Hen Ysgol ar enedigaeth Griffudd, brawd bach i Arthfael.

Rhifyn Gorffennaf

Yn y Siopau
Gorffennaf 4ydd

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Mehefin 25ain

Gofynnir am
gyfraniad o

£5

yn unig
er mwyn rhoi neges
o ddiolch ym
Mhapur Bro Clonc
os gwelwch yn dda.

Pencarreg

Cymorth Cristnogol

Mae Ruth Jones, Min-y-Llyn wedi bod yn brysur eto yn casglu tuag at yr elusen Cymorth Cristnogol a'r swm oedd £88.00.

Dymuna Ruth ddiolch i bawb wnaeth gyfrannu mor hael.

Llongyfarchiadau



Elin Williams, Tregaron yn ennill y darian ar yr Unawd dan 8 oed, yn ail oedd Swyn Tomos, Pencarreg [canol] ac Ifan Williams, Tregaron yn drydydd yn Eisteddfod Gadeiriol Talgarreg ar Fai 2ail 2015.

Eisteddfod Genedlethol yr Urdd - Caerffili a'r Cylch



Adran Llambed yn dod yn 2il yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng nghystadleuaeth Parti Unsain i adrannau dan hyfforddiant Rhiannon Lewis a Lois Williams yn cyfeilio.



Grŵp hŷn Bl. 10 a dan 19 oed Dawnsio Disgo / Hip-Hop Ysgol Bro Pedr dan hyfforddiant Sally Saunders yn 2il yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.



Grŵp Disgo / Hip-Hop Bl. 6 ac Iau Ysgol Bro Pedr yn cyrraedd y llwyfan yn y chwech uchaf allan o 18 grŵp dan hyfforddiant Sally Saunders.



Nia Morgans, Ysgol Cwrtnewydd a ddaeth yn 3ydd yn Cogurdd Bl. 6 ac Iau.

Llambed

Neuadd Fictoria

Gweler isod restr o ddigwyddiadau sydd yn cael eu cynnal yn y Neuadd

Nos Lun – Yoga 5.30 – 7.00

Nos Fawrth – Pilates – 6.00 – 7.00

Nos Fercher – Yogalates – 5.30 – 6.30

Nos Iau – Pilates – 6.00 – 7.00

Dydd Gwener – Yoga - 10.00 – 11.30

Am ragor o fanylion cysyllter â Ann 01570 481319 neu 07826 692110.

Croeso cynnes i bawb.

Llanllwni

Llongyfarchiadau



Alwena Mair Owen yn cael cyntaf ar ganu emyn ac Alaw Werin dan 12 oed ac ennill y cwpan Her am y perfformiad mwyaf addawol o dan 12 oed yn eisteddfod Llandudoch yn ddiweddar.

Cylch Meithrin Llanllwni

Ar nos Lun 18 Mai 2015 cynhaliwyd cyfarfod Cyffredinol Blyneddol Cylch Meithrin Llanllwni yn Ysgol Gynradd Llanllwni ac

etholwyd y Swyddogion canlynol

Cadeirydd – Annwen Evans, Park Lane, Llanllwni. Is Gadeirydd – Donna Jones, 7 Bro Nantlais, Gwyddgrug, Pencader. Ysgrifennyddes – Catrin George, Haulfryn, New Inn, Pencader. Ysgrifennyddes Cofnodion – Ffion Williams (Arweinydd). Trysorydd / Person Cofrestredig – Eirlys Owen, Cwmderi, Llanllwni. Gohebydd i'r Wasg – Melanie Davies, Manordeifi, Llanllwni.

Ysgol Llanllwni

Llongyfarchiadau i Owain a Rowen am ddod yn y deg uchaf yn rasys Trawsgwlad yr Urdd gan fynd ymlaen i gystadlu yn Nhrawsgwlad y Rhanbarth. Da iawn chi.

Aeth dosbarth y Cyfnod Sylfaen i ymweld â siop 'Pets at Home' yng Nghaerfyrddin gan mai 'Sŵ bach' yw'r thema. Buom yn gweld a dysgu am yr anifeiliaid a werthir yn y siop. Ar ôl cael cinio yn McDonald's aethom i'r parc. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr.

Treuliodd naw plentyn o'r Adran Iau dridiau yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog cyn hanner tymor. Cawsant amser da yn cymdeithasu a gwneud amrywiaeth o weithgareddau. Aeth pum plentyn o'r Cyfnod Sylfaen i Chwaraeon Potes yr Urdd yn Ysgol Bro Pedr gan gael llawer o hwyl wrth ymuno mewn amrywiaeth o gemau.

Mae Pwyllgor Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol wrthi yn trefnu Penwythnos Hwyl ym mis Gorffennaf gyda chymorth y Clwb Ffermwyr Ifanc a'r Cyngor Bro. Bydd croeso i bawb ymuno yn yr hwyl.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Mai:

1af - 122 – James a Rhian Powell, Erwdeg, Maesycrugiau.

2ail – 86 – Caio Benson, Arfron, Llanybydder.

3ydd – 167 – Susan Pendle, 3 Bro Nantlais, Gwyddgrug.

Cylch Ti a Fi

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore

Gwener am 9:30yb hyd 11:30yb yn Ysgol Llanllwni. Croeso i rieni, gofalywyr, mamgu's a tadcu's i ddod gyda'i plant i gymerid rhan yn gwahanol weithgareddau a chyfle i'r oedolion cael sgwrs dros paned.

Noson yng Nghwmni Clive Edwards ar Nos Wener Medi 11eg yn Tafarn y Talardd i gychwyn am 8yh. (mwy o fanylion i ddilyn).

Dyddiadau i'w gofio:-

Gŵyl Meithrin Dydd Mawrth 9fed o Fehefin yn y Gerddi Fotaneg.

Mabolgampau Ysgol Llanllwni Dydd Llun 29 o Fehefin.

Mabolgampau Meithrin y Sir yn Bronwydd ar 9fed o Orffennaf. Os am fwy o wybodaeth am y dyddiadau yma yna cysylltwch â Ffion Williams yr Arweinydd.

Gwellhad Buan

Da yw deall fod Dewi Davies, Glanafon yn gwella yn dilyn ei anffawd adref ac yna ei law driniaeth yn Ysbyty Glangwili yn ystod mis Mai.

Llanllwni

C.Ff.I. Llanllwni

Mae'r Rali i weld oes yn ôl erbyn hyn, ond yn ôl yr addewid y mis diwethaf, dyma restr o'r aelodau a ddaeth i'r brig o glwb Llanllwni. I'r rhai ohonoch a fuodd ar y maes ar ddechrau mis Mai, fuoch yn ffodus i fod yn rhan o ddiwrnod llwyddiannus iawn yn hanes clwb Llanllwni a'r mudiad yn Sir Caerfyrddin. Yn dod i'r brig yn y safle cyntaf oedd Arwel Jones a Carwyn Lewis yn y gwaith coed – adran Hŷn; Rhian Davies a Ceris Howells yn creu Baner; ac Elin Evans a Ffion Rees yn y Generation Game – adran hŷn. Llongyfarchiadau mawr i chi, a phob lwc i Arwel, Carwyn, Rhian a Ceris pan fyddant yn mynd i'r sioe Frenhinol i gynrychioli Sir Gâr ym mis Gorffennaf.

Yn dod yn yr ail safle :- Nerys Jones – Addurno cacennau. Siriol Howells – Peintio Canfas. Hefin Jones – Creu Cerflun i'r ardd. Meryl Davies – Crefft. Sion Evans a Dan Joynson – Gwaith Coed – Adran Hŷn. Sioned Howells, Sioned Bowen, Cathrin Jones a Jasmine Davies – Helfa Drysor. Betsan Jones a Mared Phillips – Ceginio. Arddangosfa Prif Gylch.

Yn y Trydydd safle :- Ifor Jones ac Aled Jones – Barnu Gwartheg. Sara Thomas a Ceirios Lewis – Ceginio. Steffan Evans a Lewis Thomas – Papuro wal. Cathrin Jones ac Elin Evans – Generation Game.

Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch.

Ar ôl yr holl gystadlu, braf oedd clywed bod clwb Llanllwni wedi dod yn yr ail safle ar ddiwedd y dydd, gan ennill tarian hardd iawn i'w drysori am flwyddyn. Hoffwn fel aelodau i ddiolch i bawb a wnaeth ein cynorthwyo mewn unrhyw fodd ar gyfer y rali eleni.

I orffen y flwyddyn eleni, aeth tua pymtheg o'r aelodau i'r traeth yn Cei Newydd i olchi eu traed a chael chips. Hoe fach haeddianol sydd

o'n blaenau yn awr cyn ein Sioe a Threialon Blynyddol. Gobeithio fydd y tywydd yn braf erbyn hynny!

Ar nos Wener y 15fed o Fai cawsom ein cinio blynyddol yng Ngwesty'r Emlyn, Castell Newydd Emlyn. Ein siaradwraig wadd am y noson oedd Mrs Meinir Howells, Cadeiryddes y Sir, a diolch iddi am ymuno â ni a'n cyfarch. Cafwyd adroddiad cryno o hanes y flwyddyn gan ein cadeiryddes, Ffion Rees. Roedd y rhestr o enillwyr yn ddi-ddiwedd – mae wedi bod yn flwyddyn llwyddiannus dros ben i'r clwb ar lefel Sirol, lefel Cymru a Chenedlaethol. Braf oedd cael cwmni ein llywyddion am y flwyddyn, sef Mr a Mrs Keith Evans, a diolch i Meinir am ei geiriau pwrpasol ar ran y ddau. Cyflwynwyd tarian yr aelod gorau eleni i'n hysgrifenyddes, Elin Evans, Frongelli. Llongyfarchiadau calonog i ti, a diolch i ti am dy waith di-flino yn ystod y flwyddyn. Gwnaed y diolchiadau gan ein is-gadeirydd, Carwyn Lewis. Ar ôl cael llond bol o fwyd blasus, y ffordd orau o'i dreulio oedd yng nghwmni yr unigryw DJ Bry! Braf gweld yr aelodau yn llenwi'r llawr erbyn diwedd y noson. Diolch hefyd i'r rhieni a ffrindiau wnaeth ymuno â ni yn y noson, gobeithio eich bod wedi mwynhau yn ein cwmni.

Cydymdeimlad

Danfwn ein cydymdeimlad llwyrat at Llyr, Angharad, Jac a Tomos Jones, Brynllwni, ar golli mam, mam yng nghyfraith a mamgu sef Marna Jones, Maes y Grug, Gwyddgrug yn ystod y mis.

Ar ddiwedd mis Mai daeth profedigaeth i ran deulu Manordeifi pan fu farw Mam Aled yn Llanwenog. Collwyd Mam a Mamgu annwyl iawn yn Rhiannon Davies, Brookland.

C.Ff.I. Llanllwni



Wythnos ar ôl y rali ar yr 8fed o Fai, cynhaliwyd ein helfa Drysor blynyddol. Er ei bod yn noson niwlog a gwlyb, mi oedd sawl un o'r cliwiau yn weladwy! Ar ôl tipyn o grafu pen, daeth tîm Ifor, Hefin, Sion ac Aled yn fuddugol. Llongyfarchiadau i chi fechgyn. Diolch i Marion a Siriol am drefnu'r noson eleni.



Carwyn ac Arwel - 1af Gwaith Coed



Llun Cinio C.Ff.I. Llanllwni a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Emlyn, Castell Newydd Emlyn yn ddiweddar.

Llanbedr Pont Steffan

Merched y Wawr

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol ar Nos Lun yr 11eg o Fai yn Ffestri Shiloh o dan lywyddiaeth Mary Davies.

Estynnwyd cydymdeimlad ag Eryl Jones ar farwolaeth ei mam ac hefyd cyfeiriwyd at y golled o aelod ffyddlon sef Miss Gwenda Thomas. Llongyfarchwyd yr aelodau a enillodd wobrau yn y Ffair Fai a gynhaliwyd yn Felinfach, sef Aerwen Griffiths a Morwen Thomas a da oedd clywed bod Aerwen wedi derbyn y swydd o is-drysorydd yr adran gelf a chreffft y Rhanbarth. Da hefyd oedd deall bod llawer o'r aelodau yn mynd i gerdded taith nodedig i godi arian at y gangen. Hyfrydwch oedd deall bod Gwynfor, Dylan a Dafydd Lewis a'u teuluoedd am gyflwyno tarian yn wobwr i'r brif gystadleuaeth yn yr Ŵyl Fai ym Machynlleth er cof am Ann a fu mor weithgar yn ein cangen am flynyddoedd lawer.

Pleidleisiwyd ar gyfer pwyllgor y flwyddyn nesaf fel a ganlyn – Llywydd – Ann Bowen Morgan, Ysgrifennydd – Dorothy James, Trysorydd – Eryl Jones gyda Lena Daniel, Noleen Davies, Janet Evans, Deina Jones, Gillian Jones, Gwyneth Morgan, ac Elin Williams. Edrychwn ymlaen at dymor llwyddiannus eto y flwyddyn nesaf. Diolch i Wynne Davies a Danville Griffiths am gyfrif y pleidleisiau. Diolchwyd i Dorothy a Noleen am ymweld â chartref preswyl Hafandeg a chytunodd Eiry a Verina i fynd y tro nesaf.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd Michael Morgan o Felinfach a ddaeth i arddangos sgiliau Cymorth Cyntaf. Mae Michael wedi bod yn aelod o Gymorth Cyntaf Sant Ioan ers bron i 50 o flynyddoedd. Cafwyd noson addysgiadol a diddorol wrth iddo ddangos y ffordd i ddefnyddio gwahanol offer sydd yn helpu cleifion mewn argyfwng. Diolchodd Mary, ein Llywydd iddo am ei waith medrus a phwysig ac am roi o'i amser i ddod atom yn rhad ac am ddim. Yna mwynhawyd cwpanaid o de a bisgedi wedi ei baratoi gan Doli, Joan a Noleen. Enillydd y raffl misol oedd Ann Morgan. Mis nesaf trefnir "Helfa Drysor" o amgylch y dref. Byddwn yn dechrau tu allan i Shiloh am 6.00 o'r gloch a gorffen am bryd o fwyd yn yr Hedyn Mwstard. Bydd hyn yn digwydd ar yr 8fed o Fehefin.

Ar ôl teithio mewn bws i'r Ŵyl Fai ym Machynlleth daeth llwyddiant i'r parti lefaru o dan hyfforddiant medrus Elin Williams drwy ddod yn gyntaf. Cafodd Gillian Jones hefyd y wobwr gyntaf am ysgrifennu stori Feicro. Ardderchog wir!! Pawb yn dod adref yn hapus iawn.

Adran yr Urdd Llamed

Daeth Barry a Ceirian i gynnal



Llongyfarchiadau i Gillian Jones o Ferched y Wawr Llanbedr Pont Steffan ar ennill y wobwr 1af yn Ffair Haf MYW yn Machynlleth. Enillodd y wobwr am ysgrifennu llen meicro.

sesiwn o sgiliau rygbi gyda'r plant a chafwyd llawer iawn o sbort a sbri a phawb yn barod i fwyta'r cŵn poeth blasus a baratowyd gan Anthea ar ddiwedd y noson. Diolch yn fawr iawn i Barry, Ceirian ac Anthea. Bu côr yr adran a'r aelwyd yn perfformio ar raglen Noson Lawen yn ddiweddar ac yn cyd-ganu gyda Dafydd Iwan. Diolch i Rhiannon am baratoi'r disgyblion. Edrychwn ymlaen i'w gweld ar y teledu ym mis Tachwedd.

Grŵp Trafod Amaethyddol Llanbed

Ar y 6ed o Fai fe aeth Grŵp Trafod Amaethyddol Llanbed ar ei Trip Gwanwyn Blynyddol i Sir Benfro.

Trefnwyd y trip gan y Cadeirydd Euros Davies, Ffôs y Gaseg.

Yn y bore talwyd ymweliad â chwmni 'Puffin Produce' yn Hwlfordd. Cafwyd taith o amgylch y gweithle yn gweld sut mae tatws yn cael eu prosesu ar gyfer mwyafrif o'r Archfarchnadoedd. Maent yn ymhyfrydu'n y ffaith ei bod yn gwmni Cymreig yn cynnig bwyd Cymraeg. Mae ei cynnyrch 'Blas y Tir' yn llwyddiant mawr. Synnwyd yr aelodau fod tua 35,000 tonnall o dato yn cael eu prosesu yno gan rhyw 125 o weithlu. Gwelwyd sut mae'r tato'n cael eu storio, eu prosesu ar gyfer eu dosbarthu i'r Archfarchnadoedd. Roedd yn agoriad llygad rhaid cyfaddef i weld yr holl beiriannau. Diolchodd Euros i'r tîm fu'n tywys yr aelodau o amgylch y gweithle ac am eu hamser. Cofiwch brynu tato Cymraeg yn eich Archfarchnadoedd!!

Cafwyd cinio blasus yn y Caffi ar safle Maes Awyr Hwlfordd cyn mynd ymlaen tuag at Tŷ Ddewi i ymweld â ffermydd Wyn, Margaret, Mark ac Emma Evans, sef Treglemais Fawr ac 'Upper



Parti Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan- enillwyr y cyflwyniad ar T.Llew Jones. Hyfforddwyd y parti gan Elin Williams.



Cynhaliwyd Seremoni Ymsefydlu Maer Llanbed yn Coleg y Drindod Dewi Sant ar Fai'r 1af. Y Maer a'r Faeres newydd yw y Cyng. Christopher Thomas a Mrs Janet Thomas.

Harglodd'.

Wedi gorffen godro tua 3 blynedd yn ôl yn Treglemais Fawr maent nawr yn ffermio Biff a Thir Âr. Maent yn ffermio tua 900 cyfer. Mae nifer y gwartheg tua 750 ar hyn o bryd yn cynnwys 150 o wartheg Pedigri Simmental 'Dewisland', sy'n cael eu cadw ar fferm 'Upper Harglodd'. Mae mwyafrif o'r llo masnachol yn cael eu prynu'n lleol ac yn cael eu gwerthu i nifer o ladd-dai pan tua 650 kg o bwysau a thua 24 – 26 mis oed. Cynhyrchir mwyafrif o'r bwyd ar gyfer y gwartheg ar y ffermydd. Roedd yn amlwg fod manylder yn bwysig iawn ond hefyd roedd system trafod y gwartheg yn holl bwysig ac roedd hyn yn amlwg gan fod y gwartheg yn hollol gysurus wrth i ni fynd o'u hamgylch. Cafwyd paned o de gan y teulu a oedd yn dderbyniol iawn. Eto diolchwyd iddynt gan Euros a chafwyd amser braf iawn gan bawb ar y ddwy fferm.

Cafwyd y pryd bwyd blasus arferol ar y ffordd adre yng Ngwesty Nantyffin. Diolchwyd i Euros am y

trefniadau gan Aneurin ac i Alun o Gwmni Bysus James Llangeitho am ein llywio'n ddiogel ar hyd y ffyrdd.

Cysylltwch â Margaret Dalton neu Aneurin Davies os am fynd ar Drip yr Hydref cyn gynted â phosib. Bydd angen blaendal gyda'r enwau eleni os gwelwch yn dda.

Mab bach

Llongyfarchiadau i Charlotte a Mathew, Siop 'Creative Cove' ar cael mab bach yn ystod y mis.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad diffuant â phawb sydd wedi colli perthnasau yn ystod y mis.

Amgueddfa Llanbed

Oes gennych chi eitemau yn y tŷ, a hoffech wybod oes iddynt rhyw werth, - wel dyma'ch cyfle! Dewch â nhw i'r Amgueddfa Ddydd Llun, Mehefin 8fed, rhwng 11yb a 3yp, pan fydd arwethwr o Gwmni Peter Ffrancis, Caerfyrddin yno i brisio'ch nwyddau – am ddim.

Croeso cynnes i bawb alw heibio.

Llanbedr Pont Steffan

Clwb Rotari Llanbedr Pont Steffan



Trefnwyd Cystadleuaeth Paentio i Ysgolion dan nawdd y Clwb Rotari. Gwobrwywyd y buddugwyr ar Mai 12fed ac nid gwaith hawdd fu dewis yr enillwyr o blith y cant a mwy o ddarluniau!

Y nod oedd annog plant Blynnyddoedd 5 a 6 i ddefnyddio eu doniau creadigol i ddarlunio aderyn. Derbyniwyd ceisiadau gan Ysgolion Bro Pedr, Carreg Hirfaen, Cwrtnwydd, Henry Richard, Llanybydder, Llanwenog, Llanwnnen ac Ysgol Y Dderi. Wrth gyflwyno'r gwobrau, diolchodd Carol Ramaya, Llywydd y Clwb Rotari, i'r holl blant gymerodd rhan ac i'w hathrawon am eu cymell i gystadlu.

Aeth y wobwr gyntaf o £20 i Zara Evans, Ysgol Henry Richard, yr ail o £15 i Kayleigh Edwards, Ysgol Y Dderi a'r drydedd o £10 i Catrin Jones, Ysgol Llanwnnen. Rhoddwyd gwobr Teilyngdod o £5 yr un i Elin Davies, Tregaron; Steffan Holmes, Llanwnnen; Karolina Kuwalek, Llanbedr Pont Steffan; George Labram Llanwenog; Catrin Lloyd, Tregaron; Nia Morgans, Cwrtnwydd; Kodi Nisbit, Llanbedr Pont Steffan; Alisha Teasdale, Llanbedr Pont Steffan a Jessica Thomas, Llanybydder.

Cewch weld y darluniau mewn arddangosfa yn ffenestr siop 16 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan. Galwch heibio i weld doniau plant yr ardal.

Awydd gwybod mwy am Rotari? Ewch i'r wefan www.rotarygb.org neu ffoniwch 01570 422766. Cewch wybodaeth am ein gwaith cymunedol i gefnogi pobl ifanc, ein hymdrechion i godi arian i achosion da, a'r boddhad a gawn o wneud hynny.

Cymdeithas Hanes

Daeth cyfres ein cyfarfodydd misol am y tymor i ben gyda chyfarfod mis Mai. Y Parch John Morgan Guy, sydd erbyn hyn wedi ymddeol o'i swydd fel darlithydd ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, ond sydd eto yn gwneud llawer o waith ymchwil, oedd y siaradwr gwadd. Ei destun oedd 'Syr Galahad a'r Rhyfel Mawr', a thema'r ddarlith oedd cofebau mewn ffenestri lliw i'r rhai a gollwyd yn y rhyfel hwnnw.

Cofnodir enwau'r miloedd yn aml ar gôf-golofnau o dan cerflun o filwr yn barod i'r frwydr; yn y ffenestri cynrychiolir y milwr gan farchod mewn arfwisg ddur, - ond hefyd â chysylltiad Beiblaidd ym mhresenoldeb un o'r Saint. Dylunir y gelyn fel sarff dan draed mewn rhai enghreifftiau, neu Sant Sior yn lladd y ddraig. Daw Syr Galahad â chysylltiad yr Rhyfeloedd Cyfiawn i'r cof, a'i darian wen â'r groes goch, - honnir mai Joseff o Arimathea a baentiodd y groes mewn gwaed. Gwelir dyfyniadau beiblaidd, megis 'Gwisgwn arfogaeu y ffydd' a 'Bydd ffyddlon hyd angau...' a llun o'r Crist yn cynnig 'coron y bywyd' i'r milwr.

Rhan amlaf, teuluoedd ariannog oedd yn gyfrifol am gosod y ffenestri yma mewn Eglwys i gofio am eu meibion, - y rhan helaeth o'r rheini yn swyddogion yn y fyddin. Ond ariannog neu beidio, roedd y galar

a brofwyd gan deuluoedd ar draws y wlad yn ddirdynol, a theuluoedd cyffredin yn rhannu'r un artaith.

Eithriad yw cael ffenestr liw mewn capel, ond enwyd rhai lle gwelir cofebau mewn gwydr, - hyn yn dangos fod pawb am gofio am eu hanwyliaid a gollwyd.

Cafwyd trafodaeth frwd wedi'r ddarlith, - yn sicr roedd yr hyn a glywyd yn symbyliad i ni ystyried yn ddyfnach beth a welir yn y ffenestri godidog yma. Diolchwyd yn ddidwyll i John Morgan Guy gan Selwyn Walters, y Cadeirydd.

Edrychwn ymlaen at ein hymwelaid â Chastell Aberteifi ym mis Mehefin, ac yna bydd y ddarlithoedd yn ail-gychwyn ym Mis Medi, - manylion yn 'Clonc' Medi.

Daeth cyfres ein cyfarfodydd misol am y tymor i ben gyda chyfarfod mis Mai. Y Parch John Morgan Guy, sydd erbyn hyn wedi ymddeol o'i swydd fel darlithydd ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, ond sydd eto yn gwneud llawer o waith ymchwil.

Diolch

Dymuna Eiry Jones, Bryn Steffan ddiolch yn gynnes iawn i bawb am bob caredigwydd a ddangoswyd tuag ati yn dilyn ei llawdriniaeth. Gwerthfawrogi hefyd pob dymuniad da a dderbyniwyd ganddi yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty ac ar ôl dod adre. Diolch o galon i chi gyd.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Annie Thomas, Nantsebon ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt adeg eu profedigaeth yn ddiweddar - boed yn alwadau ffôn, cardiau cydymdeimlad, ymweliadau, rhoddion a/neu bresenoldeb yn yr angladd. Bu pob cymwynas a chysylltiad, pa bynnag gyfrwng, mor werthfawrogol ganddynt.

Bedyddwyr

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan yng nghapel Caersalem Parcyrhos ar Sul 17 Mai. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Helen Davies a Delyth Timmis o Gaersalem. Croesawyd pawb yn gynnes gan y Llywydd David Thomas o Fethel Cwm Pedol gan gynnwys Delyth Morgans Phillips yr arweinydd, sydd yn wyneb cyfarwydd i bawb ohonom ynghyd â'r organyddion Alwena Evans ac Ann Morgan o Noddfa. Yn dilyn llwyddiant y Gymanfa y llynedd dilynwyd yr un drefn eleni eto gyda'r plant a'r oedolion yn canu bob yn ail. Mwynhawyd gwledd arbennig yng nghwmni'r plant gyda phob un yn ymateb yn rhagorol i ofynion yr arweinydd er bod nifer ohonynt yn ifanc iawn. Pleser hefyd oedd gwrando arnynt yn darllen yr emynau gan gyflawni eu gwaith yn raenus a deallus. Testun sgwrs y Llywydd oedd stori Sacheus a bu'r plant yn ymateb yn frwd ac yn hwyliog i'w gwestiynau.

Cafwyd canu gorfoleddus gan yr oedolion hefyd a Delyth yn arwain mewn ffordd mor gartrefol a di ffws. Gan ei bod yn abenigwraig ym myd yr emynau cafwyd ffeithiau diddorol ganddi am bob un ohonynt.

Talodd y Llywydd deyrnged uchel i'r arweinydd am ei gwaith clodwiw, i'r organyddion am eu gwasanaeth hwythau, i swyddogion ac aelodau Caersalem am eu croeso a'u trefniadau trylwyr ac am drefnu te ardderchog i bawb. Diolchodd hefyd i blant Ysgol Sul Noddfa am eu canu hyfryd ac i Janet am eu paratoi, i Emlyn am ei barodrwydd unwaith eto i arwain rhyrsal yr oedolion, i bawb oedd wedi cymryd rhan ac i'r cantorion i gyd am eu cefnogaeth. Diolchodd Delyth am y gwahoddiad i arwain y Gymanfa a thalodd ei gwerthfawrogiad i'r Llywydd am ei gyfraniad ac i bawb am eu cydweithrediad. Daeth prynhawn bendithiol a phleserus i ben gyda phawb yn ymgymryd o'r te ardderchog ac yn cymdeithasu o amgylch y byrddau.

Traddodwyd y fendith gan y Parchedig Jill Tomos.

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphotorestoring.com

Ymchwil Cancr

Llanybydder a'r Ardal

Barbeciwr

yn Cwm Aur, Llanybydder

13 Mehefin 2015

Stondin Boteli etc.

Raffl

Adloniant: Lleisiau'r Werin
Plant Ysgol Llanybydder

Llywydd : Mrs Beverley Pold
Mynediad trwy rodd
Rhif elusen 1089464

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL




Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pympiâu Gwres o Ffynonhellau'r
ddaeir a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Cyngor Cymuned Llanwenog
Cadeirydd: Cyng Geraint Hatcher. Clerc: Gwennan Jenkins
Ddydd Sul y 26ain o Ebrill cynhaliwyd Taith Gerdded Taith Dros Fywyd ar hyd llwybrau cyhoeddus y Plwyf; mentrwyd ar daith o ryw 5 milltir ar hyd topiau Gorsgoch hebio Castell Moeddyn. Casglwyd arian nawdd at gronfa Aren Cymru. Diolch o galon i Geraint ac Eiddwen Hatcher am y lluniaeth wedi'r daith.

Mae'r gwaith papur sydd ynghlwm wrth drosglwyddo'r gofgolofn yn Nrefach i ofal y Cyngor Cymuned yn parhau. Pan fydd y cyfan wedi'i gwblhau y Cyngor Cymuned fydd yng ngofal y gofgolofn.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi cytuno am gyfnod o dair blynedd, i dreialu les ar gae Chwarae Cae Sarn gan y Cyngor Sir. Pwyllgor y Pentref fydd yng ngofal cynnal a chadw'r Cae Chwarae dan Gadeiryddiaeth Ann Evendon; yr Ysgrifennydd yw Nia Thomas a'r Trysorydd yw Ifor Jones.

Dymunwn wellhad buan i'r Cyng Lewis Davies yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar ac edrychwn ymlaen i'w gael yn ôl gyda ni yn y cyfarfodydd.

Mae nifer o geisiadau cynllunio wedi dod gerbron y Cyngor Cymuned yn ddiweddar gan gynnwys cais am ysgol newydd yn Nrefach a'r ceisiadau i symud y gofgolofn i'r cae er mwyn creu mynedfa i'r ysgol. Mae ceisiadau hefyd wedi'u cymeradwyo ar gyfer tai yn y plwyf gan gynnwys yr isod:

- Fronfallen, Drefach – Dau dŷ semi-detached (Llawn)
- Penpompren, Drefach – Tri tŷ, un fforddiadwy a dau marchnad agored (Amlinellol)
- Tir ger Penlan Fawr, Cwmsychpant - Tŷ a sied ar gyfer gweithiwr menter wledig

Mae byrddau arddangos yn cael eu gosod yn rhai o giosgs y plwyf ar hyn o bryd, os oes gennych unrhyw hysbysebion neu bosteri, manteisiwch ar y cyfle i'w harddangos yn y lleoliadau hyn.

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor Cymuned ar 12 Mai yn Neuadd Bentref Drefach am 7.30yh, croeso i bawb. Yn ystod y cyfarfod mi fydd tymor dwy flynedd y Cyng Geraint Hatcher yn dod i derfyn. Diolchwn iddo am ei waith clodwiw fel Cadeirydd. Llongyfarchiadau i'n Cynghorydd Sir Euros Davies a'u wraig ar ddod yn ddadcu a mamgu ddiwedd mis Ebrill i Alaw Grug, merch fach i Carys a'i phartner Jason.

Mae cyfrifon y Cyngor Cymuned yn mynd cael eu harchwilio'n fewnol ac yn allanol ar hyn o bryd. Mae croeso i unrhywun eu gweld drwy gysylltu a'r Clerc.

Yn ystod 2014/2015 rhoddwyd cyfanswm o £2744 i elusennau a mudiadau lleol. Cytunwyd eleni roi £500.00 i Neuadd Gorsgoch er mwyn iddynt brynu offer megis stolion neu fyrddau a £75.00 i Glwb Cledyn a fydd yn mynd tuag at gostau bwrdd arddangos ger mynedfa'r Cae Chwarae yn Nrefach. Bydd y Cyngor Cymuned hefyd yn talu am atgyweirio'r colofnau diogelwch y tu allan i'r Cae Chwarae sydd wedi eu niweidio gan gerbyd.

CLWB CLONC

Os na wnaethoch gytundeb archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chwi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn arbed llawer o waith i gasglu'r arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i:

Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB.
Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â siec neu arian parod mae croeso i chwi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn parhad CLONC.

✂ -----

ENW:

CYFEIRIAD:

.....

CÔD POST: RHIF FFÔN:

✂ -----

ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / To [leich banc chwi / to your bank] Banc / Bank

Rhif didoli / Sort Code:-.....-.....

Cyfeiriad y Banc / Bank Address:

.....

Taler / Please pay	Nat West, Llanbedr Pont Steffan	53-61-42
I gyfrif / for the credit of	CLWB CLONC	Rhif cyfrif: 03451526
Y swm o / the sum of	£	
I ddechrau ar / commenc	1af o Orffennaf 2015 1st July 2015	Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af Thereafter annually on 1st July

nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf drwy lythyr / until you receive further notice with me in writing.

Enw'r cyfrif i'w ddebydu / Name of account to be debited:

Rhif y cyfrif banc / Account no: Llofnod / Signature:

Cyngor Cymuned Llangybi
Cyfrafu'r cynghorwyr ar Ebrill 1af yn y Neuadd Goffa. Roedd y gadeiryddes y Cyng. Heather Holgare yn llywyddu. Mae cŵn wedi bod yn baeddu pentref Llangybi ers tro a gofynnir i'r pentrefwyr gadw llygad barcud ar y cŵn a'u perchnogion. Gellir anfon unrhyw dystiolaeth mewn llun neu air i Yngor Sir Ceredigion.

Derbyniwyd cais cynllunio oddi wrth Dalton, Gelligarneddau am “Aerobic Digester System”.

Fe fydd yna gynrychiolydd o CANTREF sydd â chyfrifoldeb am bobl sydd dros 50 yn bresennol yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar Fai 6ed yn Ysgol Y Dderi am 7.30y.h. Croeso i bawb sydd yn byw yn y gymuned i fod yn bresennol.

Gellir gweld cyfrifon ariannol y cyngor ym Maesyffynnon trwy wneud apwyntiad rhwng 24 Ebrill a 26 Mai rhwng 10.00y.b. a 6.00y.h. o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Cyngor Bro Llanllwni
Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 11 Mai 2015 am 8.00yh. Is-gadeirydd: Eric Davies. Clerc: Eirlys Owen.

Croesawodd yr Is-gadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a chroesawyd Eurig Davies yn ôl wedi derbyn triniaeth. Dymunwyd gwellhad llwyr a buan i'r Cadeirydd sef Dewi Davies a oedd yn yr ysbyty. Dymunwyd pob dymuniad da i Tom Jones yn dilyn triniaeth yn ddiweddar.

PLISMONA - Croesawyd Eleri Bonning ac Adam Thomas i'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar ddiogelwch.

Y CAE CHWARAE - Yr oedd y Clerc wedi cysylltu â'r cwmni yswiriant a phenderfynwyd yn unfrydol i adnewyddu'r yswiriant ddechrau Mis Mehefin. Yr oedd y Clerc yn mynd i dderbyn gwybodaeth bellach gan y cwmni yswiriant yn y dyddiau nesaf. Penderfynwyd yn unfrydol y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Is-gadeirydd petai angen. Yr oedd y pyst pêl-droed wedi eu gosod yn y lle priodol. Diolchwyd i Tommy Davies am fenthycu'r peiriant ar gyfer y dasg ac i Melfyn Evans am wneud y gwaith.

MABOLGAMPAU - Byddai'r Gymdeithas Rieni yn helpu i drefnu y diwrnod. Yr oeddent wedi cynnig bod angen gwobrau deniadol ar y diwrnod. Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cynghorwyr y byddai unrhyw elusen a fyddai yn dod â stondin i'r cae chwarae yn cadw elw'r stondin. Byddai'r Cynghorwyr yn y fynedfa ar y dydd a byddai'r Cyngor Bro yn rhannu'r tâl mynediad rhwng yr elusennau priodol.

Byddai yswiriant y Cyngor Bro yn cael ei ddefnyddio ar ddiwrnod y mabolgampau gan mai'r Cyngor Bro sydd yn cynnal y diwrnod ar y cae chwarae.

CYLLID - Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 6 Gorffennaf 2015 am 8yh.



Ysgol Carreg Hirfaen
Llongyfarchiadau mawr i Miss Nia James, athrawes Cyfnod Allweddol 2 Ysgol Carreg Hirfaen, ar ei phriodas â Mr Brian Evans yn ddiweddar. Pan ddychwelwn o'n gwyliau hanner tymor nid Miss James bydd gennym yn nosbarth Blynyddoedd 5 a 6 mwyach - ond Mrs Evans!!!

Bydd Mabolgampau'r Ysgol yn cael eu cynnal ar gae Pentref Cwmann ar ddydd Iau, Mehefin 10fed, i ddechrau am 12.30pm.

Ar b'nawn dydd Gwener, Gorffennaf 10fed, cynhelir Ffair Haf a Chystadleuaeth Pêl Droed Blynyddol Carreg Hirfaen. Gwahaoddir ysgolion cyfagos i gystadlu am y tlws Pêl Droed ac mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni. Bydd y Pêl droed yn cychwyn am 3yp a'r Ffair Haf am 4yp.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth un o gyn athrawesau hoffus yr ysgol yn ddiweddar, sef Miss Thomas. Er ei bod wedi gorffen dysgu yn yr ysgol nifer o flynyddoedd yn ôl byddai Miss Thomas yn parhau i gefnogi gweithgareddau'r ysgol tan yn ddiweddar iawn ac yn mwynhau ymuno gyda ni ar gyfer Eisteddfod yr ysgol, y cyrddau diolchgarwch a'n cyngherddau Nadolig. Cydymdeimlwn yn fawr â'i theulu a'i ffrindiau.

Daeth llwyddiant eto i dimau pêl droed bechgyn a merched yr ysgol wrth iddynt gyrraedd rowndiau go-gyn derfynol Pencampwriaethau Ysgolion Ceredigion yn ddiweddar. Cafwyd gêmâu agos yn y chwarteri a'r bechgyn ond yn colli ar giciau cosb yn dilyn gem gyfartal ar ôl cyfnod y 'Golden Goal'. Roedd yn gamp arbennig gan y bechgyn o ystyried bod dros hanner y tîm yn fechgyn blynyddoedd 4 a 5. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm ar eu llwyddiant.



Adroddiad Ras Cwrtnewydd



Dechrau'r ras cynradd yn Cwrtnewydd.

Ar Ddydd Llun y 4ydd o Fai, cynhaliwyd yr ail ras ym mhencampwriaeth y clwb ar gyfer yr oedolion a'r plant. Roedd brwdfrydedd y plant cynradd yn amlwg gydag 80 ohonynt yn aros yn eiddgar ar y llinell gychwyn. Roedd hi'n ras agos a chyflym rhwng y bechgyn gyda'r tri cyntaf yn cynrychioli Sarn Helen. Rhys Williams enillodd y ras mewn amser o 6.12, gyda'r 2il a'r 3ydd yn agos iawn rhwng Jamie Jones mewn 6.18 a Jack Caulkett mewn 6.19. Seren James o Sarn Helen oedd yn arwain y merched am y rhan fwyaf o'r ras nes i Alaw Jones, merch leol ei phasio cyn y diwedd a gorffen mewn amser o 6.31, gyda Seren yn 2il mewn 6.39, a Heather McKenzie o Carmarthen Harriers yn 3ydd mewn 6.46. Roedd cynrychiolaeth dda o ieuencid cynradd Sarn Helen yn rhedeg y ras ac mae'r amseroedd fel a ganlyn: Dafydd Jones 6.44, Jessica McKay 6.57, Evie McKay 6.59, Sion O'Keefe 7.01, Rhodri Gregson 7.02, Gwenllian Llwyd Jones 7.11, Mali Fflur Jones 7.17, Llyr Rees 7.36, Leah Regan 7.38, Sean Wood 7.45, Nathaniel Cai Griffiths 8.20, Sara Thomas 8.37, Madeleine Caulkett 8.44, Violet Caulkett 8.58.

Yn y ras 3000 metr i blant uwchradd, yr enillydd yn ras y bechgyn oedd Thomas Willoughby o Sarn Helen mewn amser arbennig o 12.28. Llywelyn James hefyd o Sarn Helen ddaeth yn ail mewn 12.35 gyda Tomos Morgans o Ysgol y Preseli yn 3ydd mewn 13.51. Yn ennill ras y merched oedd Emily McKenzie o Carmarthen Harriers mewn amser o 15.20 gyda Naomi Howell o Sarn Helen yn 2il mewn 15.55 a Gwen Thomas hefyd o Sarn Helen yn 3ydd mewn 16.55. Hefyd yn cynrychioli'r clwb gydag amseroedd da oedd Daniel Willoughby 14.30 ac Isabella Caulkett 17.32.

Roedd 59 o redwyr yn dechrau'r ras 4 milltir ac roedd hi'n ras agos iawn rhwng y ddau gyntaf hyd at y drydedd milltir lle llwyddodd Ken Caulkett o Aberystwyth AC agor y bwch rhyngddo fe a Jamie Biggs o Aberystwyth gan ennill y ras mewn amser o 23.11, 2 funud a hanner yn arafach nag amser cyflymaf y cwrs a gafodd ei osod gan Ian Williams yn 2008. Gorffennodd Jamie Biggs yn 2il mewn 23.47 ac fe gipiodd categori dynion 40. Yn 3ydd yn y ras ac 2il yn y dynion 40 oedd Shelley Childs hefyd o Aberystwyth mewn 24.06. Glyn Price o Sarn Helen orffennodd yn 3ydd dynion 40 mewn 24.35 a hynny ar ei filltir sgwâr ei hunan. Yn ail i Ken yn y categori dynion agored oedd Carwyn Davies o Sarn Helen mewn 24.55, 7 diwrnod ar ôl iddo gwblhau marathôn Llundain mewn llai na 3awr. Cafwyd ras dda ar gyfer y 3ydd safle yng nghategori y dynion agored rhwng aelodau'r clwb Simon Hall ac un o'n haelodau mwyaf newydd Sion Price. Ond pan gyrhaeddodd nhw'r ddringfa olaf i'r diwedd, llwyddodd coesau ifanc Sion i gario'r dydd a gorffennodd yn y 3ydd safle mewn amser o 24.57. Richard Marks enillodd categori y dynion 50 mewn 26.03, gyda'r capten David Thomas yn ail dynion 50 mewn 26.34 a Hywel Jones, Amman Valley Harriers yn 3ydd mewn 28.27.

Yn ras y merched, cipiodd Sarn Helen pob gwobr yng nghategori y merched agored a merched 35 wrth i Caryl Davies ennill y ras a chipio'r categori merched agored yn ei amser gorau o 28.40, gyda Dawn Kenwright yn ail ond yn gyntaf menywod 45 mewn amser o 29.23, a Siân Roberts-Jones yn drydydd ac yn gyntaf merched 35 mewn 29.38. Cafwyd ras glos rhwng Dee Jolly a Katie McDermott wrth i Katie arwain y ffordd hyd nes iddynt gyrraedd y ddringfa olaf i'r llinell derfyn a dyna pryd newidiodd Dee gêr gan basio Katie a gorffen yn 2il merched agored mewn amser o 30.41 a Katie yn 3ydd merched agored mewn 30.55. Eleri Rivers ddaeth yn 2il merched 35 mewn 32.19 ac yna Heather Hughes yn 3ydd mewn 35.24. Yn y merched 45, gorffennodd Jane Wilkins o glwb rhedeg Aberteifi yn 2il mewn 31.38 a Monica Barlow o Llanymddyfry yn 3ydd mewn 36.56. Aeth y wobwr am y tîm cyflymaf i Glyn Price, Carwyn Davies, Sion Price a Simon Hall o Sarn Helen. Cyflwynwyd y medalau a'r gwobrau gan lywyddion y dydd Dylan Iorwerth ac Elaine Davies.

Diolch am haelioni Lyn ac Eileen Rees a Simon Hall Meats am noddi'r dydd.

Adroddiad Ras Sarn Helen

Dydd Sul, 17eg o Fai, gyda'r awyr yn glir a'r awel yn ysgafn roedd yr

amodau yn berffaith ar gyfer rhedeg ras 16.5 milltir Sarn Helen. Mae'r pellter yn her yn ei hunan ond er mwyn ychwanegu at yr hwyl a'r sialens ceir tair dringfa heriol iawn o fewn y cwrs. Mae'r ras yn dechrau ar heol Tregaron ger gwesty'r Railway gan fynd am Cellan cyn troi ger Coedmore Hall ac i fyny'r rhyw serth cyntaf sy'n cael ei hadnabod fel rhyw "Wish" (am fod un o sylfaenwyr cyntaf y clwb a'r ras yn byw yma!) O fan hyn, mae'r rhedwyr yn gadael y tarmac ac yn rhedeg trwy o leiaf 6 neu 7 cae (diolch i ffermwyr lleol) cyn ail ymuno â'r tarmac ger Tristar tua 5 milltir i mewn i'r ras. Yna gwnant eu ffordd ar darmac, llwybrau carregog a mwy o gaeau i gyrraedd milltir 8 o'r ras sef gwaelod Craig twrch sef yr ail ddringfa! Mae'r 'graig' bob amser yn le poblogaidd i wylïo'r ras er mwyn iddynt allu gwerthfawrogi'r golygfeydd godidog yn ogystal ag annog y rhedwyr i'r copa. Roedd tair milltir nesaf y ras yn ôl ar y tarmac ac yn gallu bod yn adran cyflym iawn wrth iddynt wneud eu ffordd i lawr tuag at pentref Llanfair ond mae'r llethr serth iawn ger fferm Pentre yn gallu bod yn anodd iawn ar y coesau. Yn ôl nifer o bobl, mae'r ras yn dechrau go iawn wrth fynd heibio siop Llanfair ar filltir 12 ac mae'r ddringfa ar filltir 14 i mewn i goedwig Longwood yn her i ddweud y lleiaf ac yn brawf o'ch ffitrwydd a'ch cryfder yn gorfforol ac yn feddyliol. Ar ôl teithio rhyw ddwy filltir trwy'r goedwig, gall y cefnogwyr ar y cae rygbi, weld y rhedwyr yn dod i lawr y caeau cyn pasio tractors Gwili a gwneud un lap o'r cae rygbi cyn gorffen. Er ei bod hi'n cael ei hadnabod fel ras heriol iawn, mae hi hefyd yn ras wefreiddiol ac mae'r teimlad o lwyddiant wedi i chi orffen y ras yn anhygoel. Daeth 70 o bobl i roi cynnig ar y ras eleni a'r cwestiwn mawr bob blwyddyn yw os byddai'r ddwy record o 1.34.29 gan Alan Cole ers 1982 a 2.00.08 gan Dawn Kenwright yn 1990 yn cael eu torri – a'r ateb eleni oedd na! Roedd swm ariannol o £500, yn cael eu rhoi gan Teify Forge Ltd i'r dyn a'r fenyw cyntaf i dorri'r record, ond maent yn sefyll am flwyddyn arall!



Y gamp mae nifer o'r rhedwyr profiadol eisïau'i wneud yw gorffen y ras mewn llai na dwy awr, ac wyth yn unig a llwyddodd i wneud hyn eleni. Roedd hi'n ras agos iawn rhwng y cyntaf a'r ail o'r cychwyn cyntaf a 6 eiliad oedd yn gwahanu'r ennillwr Andrew Reynolds, Neath Harriers a orffennodd mewn 1:50:05 a Ken Caulkett o Aberystwyth AC mewn 1:50:11. Rhedwr Sarn Helen, Carwyn Thomas orffennodd yn y 3ydd safle mewn amser arbennig o 1:54:58. Yng nghategori y dynion 40, Sarn Helen gipiodd y dair safle gyda Glyn Price yn gorffen yn 4ydd yn y ras ac yn gyntaf dynion 40 mewn amser o 1:57:09 gyda Dan Hooper yn 2il mewn 1:58:46 a Steven Holmes yn 3ydd ond nid o dan y 2 awr mewn 2:05:23. Yr unig 3 arall i gwblhau'r ras o fewn y ddwy awr oedd Simon Hall a Carwyn Davies o Sarn Helen a Daniel Tomlinson o Neath Harriers a phob un yn derbyn bathodyn am eu llwyddiant!

Enillydd y categori dynion 50, llai na 24 awr ar ôl gorffen ras Cadair Idris oedd Dave Powell o Aberystwyth AC mewn 2:08:29 gyda Rob Falconer o Abertawe yn 2il mewn 2:14:50, a Tony Hall o Sarn Helen yn 3ydd mewn 2:15:29.

Yn ras y merched, llwyddodd Caryl Davies o Sarn Helen i ennill y ras am y tro cyntaf mewn amser arbennig o 2.16.51 gyda'r ail safle yn mynd i Julia Tello Velamazán o Mid Wales Orienteers mewn 2:21:53. Y drydedd ferch i groesi'r llinell oedd y cyntaf yng nghategori y merched 35 sef Rachel Evans o Run4all Neath mewn 2:22:24 gyda'r ail safle yn mynd i Louise Barker mewn 2:29:02 a oedd hefyd wedi rhedeg ras Cadair Idris y diwrnod cynt! Eleri Rivers o Sarn Helen gipiodd y 3ydd safle gan dynnu 10 munud oddi ar ei hamser llynedd gan orffen mewn 2:30:49.

Rhedwyr Emlyn aeth â gwobrau'r categori merched 40 gyda'r safle cyntaf yn mynd i Sue Thomas mewn 2:37:28 gyda'r 2il i Lon Morgan mewn 2:47:53 a Wendy Tromans yn 3ydd mewn 2:47:57.

Llongyfarchiadau i ddynion Sarn Helen, Carwyn Thomas, Glyn Price, Daniel Hooper a Carwyn Davies am gipio'r wobwr ar gyfer y tîm cyflymaf eleni.

Yr ail flwyddyn yn olynol cafwyd ras gyfnewid ar hyd y cwrs gyda 3 rhedwr yn rhedeg tua 5.5 milltir. Bwriad y ras hon yw annog rhedwyr sydd ddim yn aelodau o glwb rhedeg i gymeryd rhan, ond mae'n agored i unrhyw un. Yr enillwyr eleni oedd Geraint Davies, Dafydd Davies ac Esme Telfer



gydag amser o 2:16:47.

Gwelwyd 29 o blant a phobl ifanc dewr yn mentro ar y ras 1.5milltir trwy coedwig Longwood cyn gorffen ar y cae rygbi, ac roedd hi'n braf i weld y tri bachgen dan 15 cyntaf yn cyrraedd y cae ar yr un amser gyda'r wobwr gyntaf yn mynd eleni eto i Aled Sion Jones o Aberystwyth AC mewn 11:19, yr ail yn mynd i Llewelyn James o Sarn Helen mewn 11:44 a'r 3ydd i Tomos Morgans mewn 12:36. Joseph Thomas oedd yr unig fachgen dan 18 a gorffennodd mewn amser da iawn o 14:36.

Beca Mai Roberts o Sarn Helen orffennodd yn 4ydd yn y ras ac fe gipiodd y wobwr gyntaf i'r merched dan 15 am yr ail flynedd yn olynol wrth iddi orffen yn gryf iawn mewn amser o 12:38. Merched Sarn Helen orffennodd yn 2il ac yn 3ydd yn y merched dan 15 gyda Naomi Howells mewn 15:41 ac Isabella Caulkett mewn 16:31. Yn dilyn ôl traed ei chwaer, Osian Elis Roberts o Sarn Helen groesodd y llinell yn y 5ed safle gan ennill ras y bechgyn cynradd mewn amser o 13.04 gyda Jack Caulkett o Sarn Helen yn gorffen yn ail agos iawn mewn 13:07 a Jamie Jones hefyd o Sarn Helen yn 3ydd mewn 13:22.

Cipiodd Sarn Helen yr holl wobrau ar gyfer y merched cynradd gyda'r safle cyntaf yn mynd i Seren James mewn amser o 14:06. Cafwyd ras agos iawn rhwng Gwawr Davies a Gwenllian Llwyd Jones wrth i Gwawr lwyddo i orffen 2 eiliad cyn Gwenllian mewn 14:51 a Gwenllian mewn 14:53. Roedd canlyniadau eraill yr ieuencid fel a ganlyn: Dafydd Jones 14:16, Rhys Williams 14:29, Leah Regan 15:26, Llyr Rees 16:08, Sean Wood 16:10, Violet Caulkett 17:29, Maddie Caulkett 17:46. Diolch yn fawr i noddwyr y ras Simon Hall meats sy'n galluogi'r trefnwyr i brynu gwobrau hyfryd i'r enillwyr. Y noddwyr sydd hefyd yn rhoi'r rhodd ariannol o £50 i'r dyn a'r fenyw cyntaf i orffen y ras,

Canlyniadau eraill

Yn ystod penwythnos cyntaf mis Mai cynhaliwyd sialens y Barcud Coch ym Mhontarfynach. Roedd yr hanner marathon ar y dydd Sadwrn yn rhan o bencampwriaeth llwybrau rhedeg Prydain ac felly fe ddenodd tipyn o dyrfa. Gorffennodd Glyn Price mewn amser o 1.41 gan ennill yr efydd i ddynion 45, gyda Michael Davies yn dilyn yn agos iawn mewn 1.43 i gipio'r 4ydd safle. Daeth Kevin Hughes yn gyntaf yn y dynion 40 mewn amser o 11.47 gan fynd â'r fedal aur, gyda'r fedal arian yn mynd i Nigel Davies a orffennodd mewn 1.55.

Llwyddodd Tony Hall i gipio'r fedal arian yn nghategori y dynion 60 mewn amser o 1.57 a chafodd Dawn Kenwright y fedal aur yn y merched 55 mewn amser o 2.14.

Hefyd ar yr un diwrnod roedd ras 10k yn mynd ar hyd rhai o'r un llwybrau ac fe enillodd Caryl Davies ras y merched mewn 58.53 gyda Huw Price yn ail yn y dynion 50 mewn amser o 59.30. Ar y dydd Sul, rhedodd Tony Hall yr ail hanner marathon gan ennill nid yn unig y categori i ddynion 60 mewn amser o 2.02 ond enillodd hefyd ei gategori oedran am y gyfres o'r ddwy ras.

Cynhaliwyd ras 10k arall ar y dydd sul gyda'r partneriaid Simon Hall a Dee Jolly yn rhedeg. Llwyddodd Simon i orffen yn ail yn y ras ac yn gyntaf i ddynion 35 mewn amser o 49.35 gyda Dee yn ail yn ras y merched mewn 1.03. Yng nghyfarfod cyntaf cynghrair Meistri Cymru yng Nghaerdydd llwyddodd Richard Marks i ennill y categori i ddynion rhwng 60-70 oed yn y 3000metr mewn amser arbennig o 11 munud 2 eiliad. Yn 2012, roedd Richard wedi ei rancio'n 2il ym Mhrydain ar gyfer y ras dros 5000metr. Llongyfarchiadau iddo! Ar y 9fed o Fai aeth tri o'r clwb i herio Bwystfil bach y Preseli a oedd yn 11milltir o gwrs. Llwyddodd Dylan Lewis i ennill y ras mewn amser o 1.19.27, gyda Tony Hall yn ennill categori y dynion 60 mewn 1.36.41 ac Eleri Rivers yn gorffen mewn 2.00.13. Aeth aelod hynaf y clwb Allen Watts i redeg ras Jan Younger memorial 10k ar y 10fed o Fai gan orffen mewn 1.48.

Cynhaliwyd ras fynydd Cadair Idris ar y 16eg o Fai ac fe orffennodd Dylan Lewis yn y 6ed safle mewn amser o 1:36:35 gan dynnu 3 munud oddi ar ei amser blaenorol.



Llawer o lwyddiannau i Tony Hall ac yntau newydd droi'n 60 oed.

Adran y Plant

Mae plant a ieuencid y clwb wedi bod yn brysur iawn yn cystadlu ar ran eu hysgolion mewn nifer o gystadleuthau gwahanol yn ystod y mis. Bu trawsgwlad yr Urdd sir Ceredigion ar y 1af o Fai yn Aberaeron, gyda rhai o'n haelodau yn ennill ei ras a nifer yn gorffen yn y 10 cyntaf. Ar y 9fed o Fai ar gaeau Blaendolau Aberystwyth, cynhaliwyd Trawsgwlad Cenedlaethol yr urdd ac unwaith eto gwelwyd canlyniadau arbennig gan ein haelodau a Rhys Williams o Llanwnen yn llwyddo i gipio medal am y 3ydd safle i fechgyn bl 4. Gwelwyd canlyniadau ardderchog gan y disgyblion uwchradd hefyd wrth iddyn nhw gystadlu yng nghystadleuaeth athletau Ceredigion. Llwyddodd ein haelodau i gipio nifer o wobrau. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt. Mae Gwion Payne wedi cystadlu mewn duathlon i ieuencid yn Llanelli yn ddiweddar ac wedi gwneud yn dda iawn hefyd – dilyn ôl traed ei dad mae'n siwr! Cofiwch os yw'ch plentyn wedi cystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth rhedeg a'ch bod eisiau i'w henw gael ei gynnwys yn adroddiad y clwb, mae'n holl bwysig eich bod yn rhoi gwobd i Sian Roberts-Jones neu Dee Jolly.

Hoffai'r clwb ddiolch o galon i Lyn, Eileen a teulu Tanrhos am eu hamser, eu hegni a'u teyrngarwch i drefnu rasys y clwb oherwydd hebddyn nhw, ni fyddai'r rasys hyn yn bodoli.

Clwb Beicio Sarn Helen

Ar y 26ain o Ebrill, fe aeth Dorian Rees, Carwyn Davies a Delme Rees i sir Benfro i gystadlu mewn taith o 106 o filltiroedd o amgylch y sir. Fe aeth y ras a nhw drwy'r parc cenedlaethol Sir Benfro, Poppit sands, Bocath a Pontfaen, i enwi ond rhai llefydd, cyn gorffen yng Ngwesty'r Grove yn Nhy Ddewi. Gorffennodd y 3 gyda'i gilydd mewn 8awr a 10 munud. Llwyddodd Dorian a Delme i ennill y wobwr efudd yng nghategori y dynion 39 gyda Carwyn yn cael ei anrhydeddu yn y categori dynion 19 am orffen y ras mewn amser arbennig. Yna wythnos yn ddiweddarach ar yr 2il o Fai, roedd Dorian Rees yn awchu am fwy o filltiroedd ac fe gymerodd rhan mewn sialens newydd sef un o dair o rasys "Double Devil" Mynydd Epynt Sportive, a oedd yn dechrau a gorffen ar faes y sioe yn Llanellwedd. Roedd y ras yn cynnwys 82 milltir a 7,500 o droedfeddi o ddringo gan fynd dros mynyddoedd epynt, trwy Llanwrtyd Wells, Abergwesyn, a'r enwog "Devil's staircase" a Llanymddyfri cyn gorffen yn Llanellwedd. Gorffennodd Dorian y ras mewn amser o 5awr 39munud oedd yn ei osod yn y 3 cyntaf. Roedd aelod arall o'r clwb, Tim Strang wedi cymeryd rhan yn ras fwya'r sialens ac fe deithiodd e 105 o filltiroedd gan ddringo 10,250 troedfedd a gorffennodd mewn amser o 8awr 57 munud.

Fe gymerodd Dorian Rees ran yn y "Preseli Angel Cycling Sportive" ar Fai 3ydd ac er nad oedd hon yn gystadleuaeth fe orffennodd yn y 10 uchaf gan deithio 40 milltir trwy ogledd Sir Benfro a mynyddoedd y preseli gan orffen mewn 2awr 37 munud gyda 3,800 troedfedd o ddringfa.

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Cofrestrwch ar wefan gymunedol newydd

www.clonc360.cymru

er mwyn cyfrannu eich stori chi.

Drefach a Llanwenog

Ysgol Llanwenog

Llongyfarchiadau i Molly Greenfield, Jamie Jones, Sion O'Keeffe, a Sara Thomas am gynrychioli'r ysgol yng Nghystadleuaeth rhedeg traws gwlad Cenedlaethol yr Urdd yn Abertstwyth yn ddiweddar. Gwnaethont i gyd yn dda iawn.

Balchder o'r mwyaf oedd derbyn adroddiad arolygiad Estyn diweddar yr ysgol. Roedd yn adroddiad cadarnhaol dros ben oedd yn datgan fod y tri maes arolygu sef Safonau a Lles, Y Ddarpariaeth Addysgol, a'r Rheolaeth ac Arweinyddiaeth i gyd yn dda. Diolch i'r staff a'r llywodraethwyr i gyd am eu gwaith caled a chyson. Diolch hefyd i'r rhieni am eu cefnogaeth bob amser.

Bu plant y Cyfnod Sylfaen ar daith addysgiadol i Aberystwyth. Cafwyd cyfle i ymweld â'r Castell, y Dre, y Traeth ac hefyd taith i gopa 'Craig Glais'. Er gwaetha'r tywydd heriol cafwyd diwrnod da iawn.

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen hefyd yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Chwaraeon potes yr Urdd a gafodd ei gynnal yn ysgol Bro Pedr. Cafodd y criw i gyd fwynhad wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol a chyfle i fwynhau cwmni plant eraill ardal Llanbed.

Daeth y nyrs i'r ysgol hefyd i drafod pwysigrwydd glendïd a pheryglon germau. Cafodd y plant hyfforddiant ar sut mae golchi dwylo yn drwyadl a pha mor bwysig yw hyn.

Bydd ffair haf yr ysgol yn cael ei gynnal eleni ar Nos Wener Mehefin y 19 eg am 4 o'r gloch. Dewch draw i gefnogi.

Sefydliad y Merched

Eleni, mae Sefydliad y Merched yn gant oed, - cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yng Nghymru yn Sir Fôn. Yng Ngheredigion, mae'r gwahanol ardaloedd yn trosglwyddo 'Sgrôl Dathlu'r Canrif' o gangen i gangen, ac hefyd cacen ffrwythau i bawb gael rhannu, fel arwydd o gyfeillgarwch.

Yn y llun cyntaf, gwelir Cangen Dihewyd yn trosglwyddo'r eitemau i Gangen Llanwnnen yng Nghapel-y-Groes. Yn yr ail lun mae Llanwenog yn derbyn y sgrôl oddi wrth Llywydd Llanwnnen yng Nghaffi'r Hedyn Mwstard, ac yn yr un lle mae Llanwenog yn trosglwyddo'r eitemau i Gangen Llanbedr Pont Steffan.

Braf oedd cael y siawns i gymdeithasu â'r aelodau eraill sydd yn yr un ardal. Edrychwn ymlaen i'r Hydref pan gynhelir Arddangosfa o Gan Mlynedd Sefydliad y Merched yn Amgueddfa Llanbed.



Llongyfarchiadau mawr i dîm yr ysgol ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth hoci ysgolion y cylch a buont wedyn yn cynrychioli'r ardal yng nghystadleuaeth ysgolion Ceredigion.

Aelodau'r tîm llwyddiannus oedd, Hafwen Davies, Molly Greenfield, Luke Thomas, Jamie Jones, Sion O'Keeffe, Sam Lewis, Rhodri Gregson a Harri Rivers.

Diolch

Dymuna Elvira, Blaenbronfaen ddiolch am bob cydymdeimlad a dderbyniwyd adeg colli ei chwaer Mrs Brenda Thomas ym mis Ebrill.

Wyrion Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Geraint a Caroline Davies, Llys-deri ar gael ŵyr bach cyntaf, Celt Llywelyn, mab bach i Gwennan a Carwyn yn Llambled ac hefyd i Alan a Wendy Mellor, Rhiwson-ganol ar cael ŵyr bach, mab i Charlotte a Mathew yn Llambled hefyd.

Dymuniadau gorau i chwi gyd.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda theulu'r diweddar Mrs Rhiannon Davies, Brookland a fu farw ddiwedd mis Mai.

Y Gymdeithas Hŷn

Ynghanol wythnos o dywydd oer a diflas, bu'r aelodau'n ffodus i gael diwrnod braf iawn i fynd ar ail daith yr haf. Mynd i weld Castell Aberteifi wnaethom ym mis Mai; Ail-agorwyd y castell tua cyfnod y Pasg eleni, wedi blynyddoedd o waith caled er sicrhau ei atgyweirio, ac ar gost enfawr.

Cafwyd braslun o hanes y castell cyn ein tywys yn ddau grŵp o amgylch y tŷ sydd o fewn muriau'r castell, a'r llain oddi amgylch. Mae llawer o waith i'w wneud eto, ond braf oedd cael cyfle i ymweld â'r lle hynafol yma, y man roddodd sail i'n holl eisteddfodau.

Arhoswyd yng Nghenarth ar y ffordd adre, a chael swper blasus yn 'Tŷ Te'. Er i bawb fwynhau'r diwrnod, roedd yna don o dristwch hefyd wedi i ni golli aelod ffyddlon, sef Mrs Marna Jones, Gwyddgrug, ddiwrnodau'n unig cyn y trip. Mynegwyd ein teimladau ni gyd gan Mrs Dilwen George, y Cadeirydd, ac mae'n cydymdeimlad yn ddwys iawn â Llinos, Llŷr a'u teuluoedd.

Bydd y trip nesaf ar Fehefin 10fed

yn mynd i'r Bermo (Barmouth). Enwau i Yvonne 480590.

Eglwys Santes Gwenog

Yng nghyfarfod Ffestri'r Pasg, cydnabyddodd y Ficer waith y swyddogion, organyddion, aelodau'r allor a'r ffyddloniaid, gan ddiolch iddynt am eu cefnogaeth parhaol drwy'r flwyddyn. Ail-etholwyd y swyddogion, a dymunir blwyddyn lwyddiannus arall iddynt. Mae disgwyl ers dwy flynedd am ganllaw ar hyd y llwybr tuag at brif fynedfa'r Eglwys, ond heb ei osod o hyd; addawodd Mr Roger Clive-Powell y byddai'n gwneud ymholiadau ynglŷn â'r oedi.

Bu'r Ficer Suzy Bale, Geraint Davies a'r Pwyllgor gwaith yn trafod y bwriad o argraffu llyfryn newydd am hanes yr Eglwys, a chreffftwaith Joseph Reubens y ffoadur o wlad Belg adeg y Rhyfel Mawr, a fydd o ddiddordeb i ymwelwyr â'r Eglwys.

Llongyfarchiadau i ddau deulu sy'n llawenhau gyda dyfodiad aelod bach arall i'w teuluoedd: ganwyd mab - Celt Llywelyn - i Gwennan a Carwyn Jenkins, Llambled, - ŵyr cyntaf i Geraint a Caroline Davies, Llyseri. Felly hefyd Wendy ac Alan Mellor, Rhiwson Isaf, - hwythau wedi cael ŵyr bach, bachgen bach i Charlotte a Mathew yn Llambled. Pob bendith iddynt.


Yn ystod y mis daeth y newydd trist fod Mrs Nance Davies, Crugwen, Llanwenog wedi darfod, yn 91 oed. Cydymdeimlwn yn fawr â'i meibion, Dan a Wyn, ac â Marion ei merch-yng-nghyfraith, yr wyrion a'r gor-wyrion yn eu colled. Cafodd ofal tyner gan Wyn yn ystod ei salwch diweddar, a bydd yr aelwyd yn wag heb ei chwmni diddan.

Cofiw'n am bawb sy'n anhwylyd, ac am deuluoedd mewn galar wedi colli anwyliad.

Canlyniad Clwb 100 yn y rhifyn nesaf, a manylion am gyngerdd yn yr Eglwys ar Awst 9fed.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority", Rhif Cofrestru 615251.



CELFY CEGIN A 'STAFELL
WELY, ATELOGION CEGIN
WEDI EU FFITIO,
TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Llun - Sadwrn 12 - 9
Sul - ar gau

CANOLFAN ADDURNO
AA

A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerau, Polion a thraciau lleni, gwasanaeth torri allweddïd a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Llanybydder

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda Hugh ac Olga Evans, Coedparc ar golli dwy gyfnither yn ystod yr wythnosau diwethaf yma.

Hefyd yn yr un modd cofiwn am deulu'r diweddar Simon Jones, Dolau Ville. Bu farw Simon yn 94oed yn Ysbyty Glangwili ac fe gynhaliwyd ei angladd yng Nghapel y Groes, Llanwnnen. Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf a llwyrat at holl aelodau ei deulu sydd yn byw yn nalgylch Clonc.

Estynnir cydymdeimlad mwyaf dwys gyda theulu Curtis Evans, Teifi Cottage yn dilyn ei farwolaeth mewn damwain car ym Mheniel, Caerfyrddin yn ddiweddar.

Hefyd cofiwn am deulu Jennifer Jones, Dolwlff a fu farw yn ystod diwedd mis Mai.

Noson Goffi

Cynhaliwyd Noson Goffi llwyddiannus yn Festri Aberduar ar Fai 15fed dan nawdd Pwyllgor Buddiannau'r Henoed. Croesawodd Cadeirydd y pwyllgor sef Eirwyn Davies bawb i'r noson. Ein llywydd oedd y Parch Jill Tomos. Rhoddodd araith bwrpasol a chyfraniad hael i'r coffrau.

I ddiddanu'r gynulleidfa oedd Plant Ysgol Llanybydder a Chôr Lleisiau'r Werin a chafwyd mwynhad mawr wrth wrando ar y plant a'r Côr – mawr yw gwerthfawrogiad y pwyllgor i chwi i gyd.

Gwerthwyd y nwyddau ar y byrddau yn gyflym – roedd pawb wedi bod yn hael iawn. Yna aethpwyd ymlaen at y Raffl – Raffl yr Hamperi – Emyr Jenkins a Dewi Davies.

Raffl Fawr –

1. A John Meinciau
2. R Neal, Bingo
3. Doris Wilson, Heol y Gaer
4. G Thomas, Beehive
5. Evans, Heol y Castell, Bridge End.
6. Eirwyn Davies, Llyscerdd
7. Sonia Davies, Ty Mawr
8. Steve, 70 Bro Einon

I orffen y noson diolchodd Diana Harper i bawb.



Parch Jill Tomos gyda swyddogion ac aelodau Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder ar ôl iddi agor noson goffi flynyddol y pwyllgor yn festri capel Aberduar. Cyflwynwyd adloniant ar y noson gan gôr Lleisiau'r Werin a phlant Ysgol Llanybydder. Bu yn noson lwyddiannus iawn. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.

Dymuniad y Pwyllgor yw diolch i bawb am bob cyfraniad ac am weithio mewn amryw ffordd i sicrhau llwyddiant y noson ac hefyd am eich presenoldeb.

Bydd y pwyllgor nesaf yn yr ysgol ar Hydref 6ed am 7.00 o'r gloch. Croeso i bawb.

Diolch

Dymuna Graham a Dilwen Watkins ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Diolch yn fawr.

Dymuna Arwyn, Elma a'r teulu, Tanygaer ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn dilyn marwolaeth mam, mamgu ac hen-famgu sef Rhianydd ym mis Mawrth, ac yna tad, tadcu ac hen datcu sef Ieuan ym mis Ebrill. Diolch o galon i bawb.

Eglwys San Pedr

Cynhaliwyd y Festri'r Pasg ar Nos Fawrth 28ain Ebrill 2015 a'r Cyfarfod PCC yn syth ar ôl hynny.

Yn Bresennol: Y Parch. Suzy Bale (Cadeirydd); Susan Evans (Warden); Val Wood (Warden); Avril Jones (Trysorydd); Eleri Thomas (Ysgrifennyddes); Eurwyn Davies a Heather Jones.

Ethol Swyddogion

Diolchwyd i'r canlynol am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac fe'u hail-etholwyd ar gyfer y swyddi a ganlyn:

Warden yr Eglwys – Susan Evans
Warden y Ficer – Val Wood
Trysorydd – Avril Jones
Ysgrifennyddes – Eleri Thomas

Diolchwyd i Miss Kay Davies, athrawes yr Ysgol Sul am ymwneud â'i gwaith mewn ffordd mor greadigol a diddorol.

Diolchwyd hefyd i Mr Eurwyn Davies, Mr Lyn Jones a Mr Wyn Thomas (Brynlllo) am docio coed y fynwent yn ddiweddar (Mynwent ar Heol Gaerfyrddin)

Gobeithir ymwneud â gwelliannau i'r to ac i geisio cymhorthdal.

Cynhelir Taith Gerdded ar nos Wener y 14eg o Awst.

Cynhaliwyd Gwasanaeth y Gair ar Ddydd Sul yr 17eg o Fai a'r thema'n cwmpasu Newynog Ein Byd gan fod Wythnos Cymorth Cristnogol wedi rhedeg o'r 10fed i'r 16eg o Fai 2015.

Dywedwyd bod tua 963 miliwn o bobl ein byd yn newynog. Bob dydd y mae bron 16,000 o blant yn marw oherwydd newyn – un plentyn bob 5 eiliad.

Pan feddyliwn am yr holl broblemau sydd yn ein byd e.e. miliynau o bobl newynog, rhyfel, AIDS, gormes, traffig-dynol a llawer mwy, gallwn feddwl, Y

mae'r problemau mor fawr, beth allaf i wneud? Ni wnaiff unrhyw wahaniaeth a ddylai rhywun wneud rhywbeth! Ond mewn gwirionedd dylai pob un ohonom ni ymroi i wneud rhywbeth! Gallwn ni i gyd gyflawni gweithredoedd syml sy'n dangos cariad at eraill. Os gallwn ddarparu un pryd o fwyd ar gyfer un plentyn newynog, y mae'n werth ei wneud; os gallwn helpu un person mewn poen corfforol i leihau ei boen am 4 awr – y mae'n werth ei wneud.

Y mae'r Beibl o glawr i glawr yn ein hannog i garu eraill nid yn unig mewn gair ond mewn gweithred hefyd. Dyma'r esiampl a roddodd yr Arglwydd Iesu Grist i ni wrth iddo droedio'r dddear. Bydd dangos cariad yn gofyn am naill ai ein hamser, ymdrech, arian neu ynni a rhaid i ni ei wneud ar bwrpas ac nid aros nes ein bod â'r awydd i wneud hynny.

Soniwyd bod cariad â nifer o wynebau fel yr eglurwyd ym Mhennod 13 1 Corinthiaid Pennod 13.

Y mae cariad yn hirymarhaus; y mae cariad yn gymwynasgar; nid yw cariad yn cefnigennu, nid yw'n ymfrostio; nid yw'n ymchwyllo. Nid yw'n gwneud dim sy'n anwedus, nid yw'n ceisio ei ddibenion ei hun, nid yw'n gwylltio, nid yw'n cadw cyfrif o gam; nid yw'n cael llawenydd mewn anghyfiawnder, ond y mae'n cydlawenhau â'r gwirionedd. Y mae'n goddef i'r eithaf, yn credu i'r eithaf, yn dal ati i'r eithaf. Mewn gair, y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn yn aros. A'r mwyaf o'r rhain yw cariad.

Sefydliad Prydeinig y Galon, Cangen Llanybydder a Llambod

Cafwyd ein pwyllgor blynyddol ar y 5ed o Fai. Ein swyddogion yw

Llywydd : Cllr Ivor Williams am ddwy flynedd. Cadeirydd : Dave Smith. Ysgrifennyddes : Jennie Bracher. Trysorydd : Ann Davies. Gohebydd y Wasg : Jennie Bracher. Asiant Cardiau Nadolig : Ann Davies. Archwilydd : Eirios Jones. Mae croeso i unrhyw un i ymuno a ni.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	5		7	8		2	6
		7		4			
9		6	5				8
4							
	7	1				2	3
							5
6				3	5		2
			6		9		
2	3		4	9			8

Atebion Swdocw mis Mai:

Llongyfarchiadau i:

D Haydn Davies,

1 Bythynnod

Llwyncelyn,

Abergorlech a

diolch i bawb arall

am gystadlu: Avril

Williams, Y Fedw,

Cwmann; Hugh

Evans, Coedparc,

Llanybydder; Jean Griffiths,

Fronddu, Cwrtnewydd a Bethan Williams, Neuadd

Fryn, Llanybydder.

5	2	3	7	9	8	6	4	1
1	7	4	2	6	5	3	8	9
9	6	8	3	4	1	2	5	7
2	8	9	6	7	3	4	1	5
6	4	7	1	5	2	8	9	3
3	1	5	9	8	4	7	2	6
8	3	6	4	1	9	5	7	2
4	9	2	5	3	7	1	6	8
7	5	1	8	2	6	9	3	4

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriol a
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org

Gwasanaeth Lamineiddio Dyffryn Aeron

Diogelwch eich gwaith
mewn maint A4 i A1

Prisiau rhesymol i
unigolion, ysgolion a
myfyrwyr

Cysylltwch â Roy Davies
ar 07792 627974.

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llanbed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Conduct Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Llanllwni

Eglwys Sant Luc, Llanllwni Undeb y Mamau:

Am ein cyfarfod mis Ebrill, fe
gwrddon yn y Ganolfan Gwiltiau
yn Llanbed, a chael croeso cynnes
gan Jen Jones. Diddorol iawn oedd
gweld yr arddangosfa ddiweddar,
a'r lluniau o addoldai lleol. Cyd
ddigwyddiad llwyr oedd fod S4C yn
ffilmio ar gyfer rhaglen Heno!

Ar y 19eg o fis Mai aethom ar
ein gwibdaith flynyddol ym Mws y
Gymuned gyda Marion wrth y llyw.
Y gyrchfan gynta oedd Parc Dinefwr,
a Thŷ Newton. Rhyfeddwyd at
brydferthwch y Parc ac ysblander y
Tŷ. Cawsom dywysydd cyfeillgar,
a gwybodys i fynd â ni o gwmpas,
ac mae'n siwr mai'r uchafbwynt
(yn llythrennol!) oedd cerdded ar y
tô! O'r fan yma gellir gweld Castell
Dynefwr, a thu hwnt. Cafwyd hanes
y 150 o geirw sydd ar y Parc, a
hefyd y gyrr o Wartheg White Park.
Roedd hon yn ymweliad gwerth ei
gwneud. Yn hwyrach ymwelwyd â
thref Llandeilo, a chael pryd o fwyd
blasus iawn yn y Cottage Inn ar y
ffordd adre.

Bydd y tymor yn ail-ddechrau ym
mis Medi gyda'r Gwasanaeth Cymun
arferol. Pob hwyl i'r aelodau dros
yr haf, a dymuniadau gorau i'r rhai
sydd wedi methu dod i'r gangen
eleni: Sarah Jones, Dorothy Evans,
Betty Davies, Ivy Evans, a Velma
Thomas.

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Yn ystod Ebrill a Mai bu dwy
wasanaeth bedydd yn yr Eglwys.

Ar Ebrill 26ain cafodd Macs Sion
Wyn, mab Sion Harris a Hayley
Thomas, Sunioak, Llanfihangel ar
arth ei fedyddio.

Ar Fai'r 23ain cafodd Jac Elis
Lloyd, mab Nick ac Emily Lloyd,
Bro'r Hen Wr, Pencader ei fedyddio.
Pob bendith ar y ddau deulu.

Llanwnnen

Wyres newydd

Llongyfarchiadau i Catrin a Llew
Thomas, Castell Du ar ddyfodiad
wyres fach newydd Betsan Fflur,
merch i Angharad a Rhys yn
Alltyblaca.

Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313



Yn y Gegin gyda Gareth



"Pryd i bedwar mewn awr."

Y mis yma 'rwyf wedi gosod her i mi fy hun i greu pryd arbennig
i bedwar a hynny mewn awr yn unig. Ar ôl ychydig o chwilio a
phendronni ac arbrofi, - ac o ie, profi - 'rwy'n falch i ddweud dyma fe.

Mae'n bryd sydd yn addas i bawb, yn defnyddio cynhwysion o safon a
dim gormod o ffws i'w roi at ei gilydd.

Mae'r dechreuwyd a'r pwddin yn oer, sy'n lleihau "stress" a "panic"
munud olaf yn y gegin. Dim ond y prif gwrs sydd angen ei goginio.
Felly, gwahoddwch griw draw i swper.

Pob hwyl wrth goginio yn erbyn y cloc,

Gareth

Salad sitrig a sbeis

Cynhwysion.

Un llond llwy bwdin o hadau coriander
2 oren
2 lond llwy fwrdd o olew'r olewydd
Un llond llwy bwdin o 'Sherry vinegar'
2 x 125gm o beli mozzarella
Letys cymysg



Dull

1. Tostiwc yr hadau mewn padell ffrio sych, yna'u malu gan
ddefnyddio 'pestle a mortar'. Torrwch gnawd yr oren'.
2. Gratiwc croen un oren ac ychwanegwch yr hadau coriander, yr
olew a'r finegr a gwasgwch y 'pith' oren i greu sudd.
Cymysgwch.
3. Rhwygwch y caws. Gosodwch ar bedwar plat gyda'r oren a'r
letys. Sgeintiwch ychydig o'r dressing drosto. Gweinwch gyda
bara crensiog.

Penfras efo crwst chorizo ac aioli lemon.

Cynhwysion.

150/6oz chorizo
50gm/2oz briwsion bara
25gm/ 1 owns o gnau almwyn wedi'u rhostio
Sest un lemwn
Un llond llwy bwdin o olew
4 darn o benfras heb groen

Yr Aioli

4 llond llwy fwrdd o 'mayonnaise'
½ ewyn o garleg
Un llond llwy de o sudd lemwn.



Dull

1. Ffriwch y chorizo nes yn grisip. Oerwch, yna malwch yn y
prosesydd bwyd. Ychwanegwch y bara, almwyn, sest, pupur a
halen, yna llond un llwy bwdin o olew. Malwch.
2. Gosodwch y penfras ar hambwrdd pobi wedi'i iro.
Gorchuddiwch â'r crwst gan ei wasgu i'r corneli. Pobwch ar
200°C, 180° Fan am tua 15 munud. Gweinwch gyda thato
newydd a ffa gwydd. Cymysgwch gynhwysion yr aioli mewn
powlen a gweinwch.

Pwddin 'Peach Melba'

(Pwddin cyflym a blasus)

Cynhwysion.

Un pot o mascarpone
100gm o iogwrt groegaidd
2 lond llwy fwrdd o siwgrw eisin
Diferion o flas fanila
200ml o hufen
4 llond llwy fwrdd o jam mafon
2 eirinen wlanog wedi'u sleisio
Ychydig mafon ffres
Un llond llwy bwdin o fisgedi amoreto.



Dull.

1. Chwyrliwch y mascapone, iogwrt, siwgrw a'r fanila nes yn
feddal. Ychwanegwch yr hufen, a'i guro eto.
2. Rhanwch ychydig jam rhwng 4 gwydr, yna ychydig o'r hufen
a'r eirinen gwlanog. Yna mwy o'r hufen, a'r jam. Gorffennwch â
mafon a bisgedi amareto wedi'u malu ar y top. Hyfryd!!



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Wel wrth i mi ysgrifennu'r llythyr yma atoch mae'r haul yn gwenu'n braf arnaf ac rwyf wrth fy modd yn torheulo yn yr ardd. Digon o hufen iâ a sudd oren oer. O dyma'r bywyd i grwbau fel fi!

Wel mi wnaeth nifer ohonoch chi blant fynd ati i liwio llun y blodau yn tyfu yn yr ardd. Da iawn chi. Roeddwn yn hoff iawn o lun Betsan Gwladys o Langeitho a Lowri James-Evans o Silian. Da iawn ti. Ond llun gorau'r mis yma yw un Holly Ann Davies, 117 Rhyddwen Road, Graig Cefn Park, SA6 5RG. Llongyfarchiadau mawr i ti Holly!

Ddoe mi fues yn gwyllo Ffred y ffermwr yn brysur yn torri'r porfa ar gyfer ei wneud yn silwair. Roedd y gwylanod yn hedfan o gwmpas gan sgrechian dros bob man gan weiddi ar bawb fod y porfa wedi'i dorri. Felly beth am fynd ati i liwio llun Ffred yn teithio yn ei dractor o un lle i'r llall? Cofiwch ddychwelyd y llun nôl i mi cyn gynted a phosib.


Ta ta tan toc.



Enillydd
y mis!

Holly
Ann
Davies

Ariennir yn rhannol gan **Lywodraeth Cymru**



Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

RHAI O ENWAU LLEOEDD BRO EISTEDDFOD YR URDD ELENÍ

Mae enwau lleoedd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cyflwyno darlun cyfoethog o hanes, iaith, tirwedd a thrigolion yr ardal. Bydd llawer o ddarlennwyr y golofn hon wedi manteisio ar y cyfle i ymweld â'r eisteddfod a'r mis hwn fe soniwn am rai o enwau'r ardal.

LLANCAEACH

Ar dir Llancaeath Fawr ger Nelson roedd yr Eisteddfod eleni. Ystyr Llancaeath yw 'glan (afon) Caeach'. Mae'r ffurfiau cynnar ar yr enw (Glancayach, er enghraifft) yn profi hynny. Felly nid cyfeirio at sefydliad eglwysig a wna'r elfen gyntaf yn Llancaeath o gwbl. Mae'n enghraifft o adffurfiad gwallus o 'glan' sef ymyl afon neu nant. Fu erioed sant o'r enw Caeach.

Nant Caeach oedd yn ffurfio'r ffin rhwng y ddau gwmwd Senghennydd Uwch Caeach a Senghennydd Is Caeach. 'Cae' sef maes yw'r elfen gyntaf yn Caeach; mae'n cael ei dilyn gan '-ach' elfen sy'n digwydd gydag enwau afonydd eraill megis Bradach.

SENGHENNYDD

'Y seintiau' yw enw'r selogion ar dîm rygbi'r pentref hwn. A hynny o bosib am mai eu canfyddiad yw taw cymreigiad yw'r enw Senghennydd o enw sant a elwir Cenydd. Mae'n ganfyddiad cyfeiliornus.

Mae Senghennydd yn enw Cymraeg hynafol iawn ac wedi ei lunio ar batrwm tebyg i amryw enwau cynnar eraill sy'n dynodi tiriogaeth. Yn achos Senghennydd ychwanegwyd '-ydd' at yr enw personol Sangan er mwyn dangos perchnogaeth y person penodol hwnnw a'i ddisgynyddion ar y fro. Ystyr Senghennydd felly yw 'tiriogaeth sy'n eiddo i Sangan'. Ni wyddom ddim oll am Sangan. Dyma'r patrwm a welir mewn enwau megis Eifionydd Eifion.

CAERFFILI

Ystyr yr enw yw 'amddiffynfa Ffili'. Mae Ffili yn enw personol ond diflannodd pob tystiolaeth am Ffili yn niwl y canrifoedd.

NELSON

Yn achos yr enw hwn, lledodd enw'r dafarn i ddynodi pentref cyfan. Yn ôl traddodiad cafodd y dafarn ei henwi i goffáu ymweliad gan yr Arglwydd Nelson yn 1813 - ddwy flynedd cyn iddo ennill enwogrwydd pellach ym mrwydr Trafalgar.

PONTLLAN-FRAITH

Yr elfennau yn Pontllan-fraith yw 'pont' a 'llyn' a 'braith'. Mae'r 'bont' yn croesi afon Sirhywi; ffurf fenywaidd 'brith' yw 'braith' ac yn cyfeirio, o bosibl, at belydrau'r haul yn llewyrchu ar wyneb dŵr y llyn. Yn ystod y ddeunawfed ganrif disodlwyd 'llyn' gan 'llan'. Dros nos bron fe ddatblygodd traddodiad am sant o'r enw Braith. Ond fuodd na ddim sant o'r enw hwnnw erioed!


BEDWAS

Cysylltir yr enw â 'bedwos' sef celli neu goedwig o goed bedw; mae'r elfen '-os' yn digwydd yn gyffredin gydag enwau planhigion megis helyg (helygos), rhedyn (rhedynos), celyn (celynos), grug (grugos), gwern (gwernos) i ddynodi digonedd o dyfiant.

BEDLINOG

Y ffurf ar yr enw sy'n digwydd yn yr 17eg ganrif yw 'Bodlwynog'. Mae 'Llwynog' yn enw ar nant fechan yn y pentref ac yn perthyn felly i ddosbarth o enwau afonydd megis Twrch, Ceiliog a March sydd wedi'u henwu ar ôl creadur. Gallai Bedlinog olygu 'trigfan gerllaw (nant) Llwynog'.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org enwaulleoedd@gmail.com



O Gaerdydd i Ddinbych y Pysgod



Gwnaeth grŵp o fois y Talardd daith ar y beics y llynedd i godi arian i'r Uned Gofal Arbennig yn Glangwili ar ôl i John Talardd gael damwain gas yn y car!

Ers hynny, Mae John (JJ) wedi cal y byg seiclo!!!! Felly fe aeth Kevin a John sy'n 70oed eleni ar daith y Carten100 o Gaerdydd i Ddinbych y Pysgod yn ddiweddar gyda tua dwy fil o bobl eraill i godi arian at wahanol elusennau!

Rhif John yn y Talardd os chi am ofyn rhagor iddo fe yw 01559 395633!

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost

*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn ailfeddiannu am eich cartref.

S4C

cariad@iaith

8.00

14-20 Mehefin

Bwyta, cysgu, dysgu
Cymraeg – her i wyth
wyneb cyfarwydd yng
nghwmni Wynne Evans
a Nia Parry

@s4cariad
facebook/s4cariad

Tudalen Chwaraeon



Buddugwyr cystadleuaeth Athletau Dyfed Ysgol Bro Pedr – daeth yr ysgol hefyd yn ail fel tîm.



Yn nhrawsgwlad rhanbarth Ceredigion cipiodd tri o blant Carreg Hirfaen safleoedd da - Seren James o flwyddyn 5 y wobwr gyntaf, Llyr Ifan o flwyddyn 3 y 4ydd wobwr a Gwenllian Llwyd o flwyddyn 4 yr 8fed wobwr.



Rhys Williams disgybl Blwyddyn 4 yn Ysgol Llanwnen sydd wedi ennill y cwpan yn Ras Calan Mai Cwrtnewydd, ennill yr ail wobwr yn Rasus Trawsgwlad yr Urdd Ceredigion ac ennill y drydedd wobwr yn Nhrawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yn Aberystwyth.



Yn ystod y mis cafodd plant CA2 Ysgol Carreg Hirfaen y cyfle i ddatblygu eu sgiliau hoci trwy fynychu gweithdai hoci yng Nghanolfan Hamdden Llambed. Cawsom ddiwrnod da yn chwarae gêmâu a dysgu sgiliau newydd. Cafodd tîm hoci yr ysgol lwyddiant yn y twrnament gan ennill tair gêm, cael un gêm gyfartal a cholli ond un gêm.



Dyma lun o Dîm Pêl Droed merched Llanybydder dan 14. Mae wedi bod yn dipyn o dymor iddynt, gan eu bod wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan y Gynghrair Gorllewin Cymru a gorffen yn y drydydd safle yn y tabl. Tipyn o gamp i'r merched! Yn y llun hefyd mae'r ddau Hyfforddwr sef Kelvin James a Dave Clark. Mae croeso i chwaraewyr newydd i ymuno gyda'r garfan. Gallwch ffonio Kelvin James ar 07800 656341 am fwy o fanylion.



Aeth tîm athletau'r ysgol i lawr i Gaerfyrddin yn ddiweddar i gystadlu ym Mhencampwriaethau Athletau Ysgolion Cynradd Dyfed. Gwelwyd disgyblion Carreg Hirfaen yn cystadlu'n frwd yn y rاسus rhedeg 100 metr, 800 metr a 70 metr tros y clwydi yn ogystal â'r rاسus cyfnewid i fechgyn a merched. Cafwyd perfformiadau gwych gan yr holl blant ond heb os uchafbwynt y noson oedd trydydd safle agos iawn Scott Griffiths yn ffeinal ras y Clwydi. Bydd Scott yn awr yn cynrychioli Dyfed ym Mhencampwriaethau De Cymru. Da iawn i'r tîm cyfan.



Cafodd timau pêl droed Carreg Hirfaen lwyddiant mawr ym Mhencampwriaeth Pêl droed Ysgolion Sir Gâr yn ddiweddar. Daeth tîm Bechgyn Blynnyddoedd 3 a 4 yn ail yn ei cystadleuaeth hwy, yn colli o un gôl i ddim yn erbyn Ysgol y Dderwen yn y ffeinal, tra aeth tîm Bechgyn Blynnyddoedd 5 a 6 un safle yn well gan ennill ei cystadleuaeth hwy trwy guro tîm Ysgol Nantgaredig o ddwy gôl i ddim yn ei ffeinal hwy.

Trwy ymroddiad tîm y merched gwobrwywyd yr ysgol hefyd efo'r tlws Chwarae Teg. Diolch i'r rhieni am y gefnogaeth a llongyfarchiadau mawr i'r plant ar eu llwyddiant.